



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar y cynigion
ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2012





Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 7438 2

ISBN digidol 978 0 7504 7443 6

© Hawlfraint y Goron 2012

WG15440

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair y Gweinidog	1
Crynodeb Gweithredol	3
Adran 1: Pwrpas ymgynghori	7
Adran 2: Cefndir – datblygu cynaliadwy	19
Adran 3: Sut ydym ni’n hybu datblygu cynaliadwy	19
Adran 4: Dysgu o’n hagwedd ar ddatblygu cynaliadwy	23
Adran 5: Y ddadl dros gryfhau ein ffordd o fynd ati	26
Adran 6: Dyletswydd datblygu cynaliadwy newydd	28
Adran 7: Corff datblygu cynaliadwy annibynnol	42
Adran 8: Y ffordd y byddwn yn cynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol	50
Rhestr o gwestiynau’r ymgynghoriad	52
Sut i gymryd rhan a rhoi’ch barn	56

Rhagair y Gweinidog



Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n esbonio sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Pethau tymor byr, o'u natur, yw rhaglenni gwleidyddol ond yn ein rhaglen ni, mae'r tymor hir yn rhan ganolog ohoni. Y ddeddfwriaeth hon yw'n cyfrwng ni i ymrwymo'n hunain a chyrff eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i'r tymor hir.

Mae gweledigaeth tymor hir i'n dehongliad ni o ddatblygu cynaliadwy, hynny yn unol â'n cynllun datblygu cynaliadwy, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Rydym am weld cymunedau sy'n lleoedd diogel, cynaliadwy a deniadol i bobl fyw a gweithio ynddyn nhw, lle mae pobl yn cael at wasanaethau a'u hiechyd yn dda. Rydym am weld Cymru deg, cyfiawn a dwyieithog, lle y caiff dinasyddion o bob oedran a chefnidir eu grymuso i benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain, llywio eu cymunedau a gwireddu eu potensial llawn. Rydym am economi flaengar, llwyddiannus a chryf sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol ac sy'n cefnogi dyheadau'r bobl. Rydym yn cydnabod bod gwerth hanfodol i'r amgylchedd, mai'r amgylchedd yw'r system sy'n cynnal ein bywydau a'i fod yn ganolog i ansawdd ein bywyd, ein hymdeimlad o le, ein hiechyd a'n lles.

Mae penaethiaid llywodraethau'n cwrdd yn Rio yn ddiweddarach eleni i ystyried pwysigrwydd datblygu cynaliadwy. Mae'n bwysig yn ein barn ni bod gwlad fach fel Cymru'n dangos arweiniad ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel rhan o'r ymdrech fyd-eang.

Rydym yn ffodus bod yr holl bleidiau yng Nghymru yn cefnogi'n dyletswydd dros ddatblygu cynaliadwy. Mae camau breision wedi'u cymryd yn ystod deng mlynedd o lywodraeth ddatganoledig ac mae'r astudiaethau achos yn y ddogfen hon yn dangos yr hyn sydd eisoes yn bosib ac sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth i bobl nawr. Taith yw hon, ac mae pob corff a mudiad wedi cyrraedd lleoedd gwahanol ar hyd y daith gan ddelio â'u set benodol eu hunain o broblemau. O'r llwyddiannau y gallwn eu gweld nawr, rydym am i bob corff a sefydliad brysuro'r newid o blaid datblygu cynaliadwy, gan fynnu'r gorau o'n hadnoddau cyfyngedig a sicrhau'r canlyniadau gorau ar ran pobl Cymru.

Dyna pam rydym am ddeddfu nawr, i ymrwymo Llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol i'r daith. Rydym yn falch mai ein gweinyddiaeth ni sy'n manteisio ar y cyfle hwn i ymrwymo Llywodraeth Cymru i'r ddyletswydd hon.

Rwy'n gwybod mai'r egwyddorion rydym yn eu gosod allan yn y Bil dan sylw yw'r egwyddorion cywir a byddant yn sail i'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Nid ydym yn awgrymu y bydd popeth a wnawn yn llwyddo, ond mae pethau'n gwella a byddwch yn dechrau gweld ffrwyth yr egwyddorion hyn wrth inni roi'r Rhaglen Lywodraethu ar waith.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i bobl Cymru am eu barn ar ein cynigion. Rydym yn atebol i bobl Cymru dros gyfnod y Llywodraeth hon, ac rydym yn gofyn i chith e wneud eich rhan i ddylanwadu ar yr hyn a wnawn. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud am yr elfen ganolog hon o'n rhaglen ddeddfu.



John Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Crynodeb Gweithredol

Meddwl yn Wahanol

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi Cymru ar gyfeiriad gwahanol ers ei sefydlu ym 1999. Mae'r gwahaniaeth hwnnw'n dod yn fwyfwy amlwg wrth i ddatganoli ddatblygu ac aeddfedu. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ei gwneud yn glir mai datblygu cynaliadwy yw'r gwahaniaeth hwnnw a dyna fydd y sail y byddwn yn adeiladu dyfodol cryf i'r wlad arni. Datblygu cynaliadwy yw'r egwyddor sy'n diffinio'r llwybr datblygu gorau i Gymru. Gallwn grynhoi datblygu cynaliadwy fel a ganlyn: gwella lles neu ansawdd bywyd yng Nghymru dros y tymor hir, o fewn terfynau amgylcheddol. Mae'n ymwneud â sut i hybu twf ac adfywiad economaidd cynaliadwy sy'n gwasanaethu ein cymunedau; sut i sicrhau bod pawb yn cael bywyd iach ac yn gwireddu ei botensial; sut i roi cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb i bawb; sut i adeiladu ar ein hetifeddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg; ac â sut i ddefnyddio llai ar adnoddau'r ddaear, hybu ecosystemau sy'n gweithio a bywyd gwyllt iach.

Mae hi'n gyfnod anodd arnom ar hyn o bryd, gyda llai o wariant cyhoeddus a phroblemau ariannol byd-eang yr un pryd â chynnydd yn yr angen am y gwasanaethau y mae'r sector cyhoeddus yn eu darparu ac y mae'r mwyaf bregus yn ein cymdeithas yn dibynnu arnynt. Mae angen inni feddwl a chyflawni mewn ffordd wahanol os ydym am wynebu'r sialensiau hyn, diogelu'n cymunedau a diogelu'r dyfodol ar gyfer ein plant.

Parod at y Dyfodol

Mae angen inni feddwl am y tymor hir, a dylunio ac adeiladu cyrff a sefydliadau, seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus i'n gwasanaethu at y tymor hir y gallwn fforddio eu cynnal a'u rhedeg. Mae angen inni chwilio a delio â hanfod problemau fel diffyg addysg neu sgiliau, diffyg iechyd a datgysylltu â chymdeithas – yn hytrach na'r symptomau yn unig. Mae angen inni weithredu mewn ffyrdd cydgysylltiedig sy'n dangos ôl meddwl ac sy'n cynnig yr hyn sydd ei angen ar bobl, gyda chyrrff a sefydliadau'n cydweithio â'i gilydd i wasanaethu'r dinesydd. Mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn ystyried, yn integreiddio ac yn cydbwysu'r angen am economi gref, diwylliant a chymdeithas Gymreig cryf ac amgylchedd cryf fel eu bod yn cynnal pobl Cymru gyda'i gilydd am yr holl genedlaethau i ddod. Dyna sut y gwnawn ni greu dyfodol diogel, cryf a chadarn i Gymru.

Yn ganolog i bopeth a wnawn

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i wneud y ffordd hon o wneud pethau yn ganolog i bopeth a wna. Datblygu cynaliadwy yw ein henw arni – rydym yn defnyddio egwyddorion clir i seilio'n penderfyniadau arnynt ar gyfer darparu'r canlyniadau rydym am eu gweld. Pan fydd dewis anodd yn ein hwynebu, byddwn yn dewis yr opsiwn sy'n gweithio orau yn y tymor hir – fel buddsoddi mewn addysg gynnar well a chefnogi teuluoedd nawr i osgoi caledi cymdeithasol wedyn, neu helpu Cymru i ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol yn barod ar gyfer prisiau uwch yn y dyfodol.

Mae sefydliadau ym mhob sector yng Nghymru yn dilyn y trywydd hwn hefyd ac rydym yn dechrau gweld ei fanteision. Rydym wedi bod yn gweithio gyda llawer ohonynt trwy rwydwaith ein Siarter Datblygu Cynaliadwy, wrth inni feithrin ein deall a'n gallu yng Nghymru i allu gwneud y newidiadau hyn. Fodd bynnag, o ystyried maint yr heriau sy'n ein hwynebu, ac i gael y gorau o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni, rhaid annog ein holl sefydliadau cyhoeddus i wneud datblygu cynaliadwy'n ganolog i bopeth a wnânt ac i fod yn barod i ddysgu oddi wrth y rheini sydd eisoes yn gweld cynnydd.

Pam dyletswydd arall?

Dyma pam rydym yn cynnig cynigion ar gyfer rhoi dyletswydd datblygu cynaliadwy ar rai sefydliadau yng Nghymru. Mae'r sector cyhoeddus yn cael effaith aruthrol ym mhob rhan o Gymru - fel arweinydd cymunedol, fel darparwr gwasanaethau ac fel rheoleiddiwr, gan osod y fframwaith ar gyfer datblygu lleol a rhanbarthol. Rydym am i sefydliadau ystyried effeithiau eu gwaith ar les tymor hir. Rydym am iddynt feddwl am yr effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyn gwneud penderfyniad, ond nid ydym am ddatgan mewn deddfwriaeth y dylai esgor ar ganlyniad penodol. Rydym am weld y math hwn o feddwl yn ymwreiddio ym mhob sefydliad a gweld pob sefydliad yn agored ynghylch ei benderfyniadau, fel ein bod yn dechrau adeiladu lleoedd gwell nawr.

Nid mater o dicio blychau a biwrocratiaeth

Rydym wedi ystyried amrywiaeth o fodelau ar gyfer y ddyletswydd. Rydym am gamu oddi wrth gydymffurfio trwy 'dicio blychau' ac nid ydym am ychwanegu'n ddiangen chwaith at y baich biwrocraidd: yn wir, efallai bod yna rwymedigaethau y gallwn eu gollwng yn sgil y ddyletswydd datblygu cynaliadwy ac rydym am ofyn i'r sector cyhoeddus ein helpu i'w henwi.

Rydym yn cynnig dyletswydd sydd:

- yn effeithio ar benderfyniadau lefel uwch sy'n cael eu mabwysiadu gan sefydliadau i arwain eu ffordd o weithio;
- yn sicrhau bod y prif ffactorau datblygu cynaliadwy yn dylanwadu ar y penderfyniadau hynny;
- yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddweud yn eu hadroddiadau blynyddol sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd.

Mae rhai ffactorau datblygu cynaliadwy¹ yn seiliedig ar ymddygiad datblygu cynaliadwy (meddwl tymor hir, integreiddio, gweithio ar draws ffiniau sefydliadau, canolbwyntio ar atal a chyfranogaeth) ac mae ffactorau posibl eraill yn seiliedig ar amcanion datblygu cynaliadwy (sy'n ymgorffori'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac iechyd a ddeisyfir). Rydym yn credu trwy sicrhau fod penderfyniadau lefel uwch yn cydymffurfio â set o ffactorau datblygu cynaliadwy, y byddwn yn hybu'r math o ganlyniadau datblygu cynaliadwy rydym am eu gweld. Yn ein barn ni, bydd hynny'n tyfu o'r egwyddorion rydym wedi'u pennu yn ein cynllun

¹ Rydyn ni'n esbonio hyn yn llawn yn adran 6.

datblygu cynaliadwy, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, ac ar y fframwaith o egwyddorion datblygu cynaliadwy y cytunwyd arnynt ar lefel y DU².

Arweiniad a Newid Diwylliant

Yr hyn rydym am ei weld yw diwylliant pob sefydliad yn newid. Ni all hyn ddigwydd ar chwarae bach, mi wn, na thros nos. Bydd yn rhaid wrth graffu a chefnogaeth, ac unwaith eto, rydym am iddo ymwreiddio lle gall o fewn y strwythurau presennol. O ran craffu, mae trafod yn digwydd³ ynghylch Archwilydd Cyffredinol Cymru, y gallai ei rôl gynnwys dyletswydd i archwilio datblygu cynaliadwy.

Cefnogi'r newid

Rydym yn cynnig hefyd sefydlu corff datblygu cynaliadwy annibynnol newydd fel cronfa o gyngor ac arweiniad arbenigol (a herio o bosibl) ar gyfer y sefydliadau fydd yn gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd. Gallai fod gan y corff newydd hwn rôl unigryw yng Nghymru:

- hybu'r safbwynt tymor hir, gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng lles cenedlaethau'r dyfodol a buddiannau cenedlaethau heddiw;
- hybu'r olwg integredig, gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol trwy sbectol datblygu cynaliadwy.

Gallai'r corff newydd hefyd:

- baratoi adroddiad cyfnodol ar gyflwr Cymru, a sut y gallai tueddiadau heddiw effeithio ar genedlaethau'r dyfodol;
- cloriannu'r prif ddangosyddion datblygu cynaliadwy neu'r mesurau cynnydd, a rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru;
- cloriannu materion neu themâu sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy ar draws y sector cyhoeddus yn gyfan;
- gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ynghylch codi rhwystrau i hybu datblygu cynaliadwy;
- bod yn ymgynghorai statudol ar ddatblygiadau neu bolisiâu arwyddocaol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn ichi am eich ymateb i'r trywydd rydym yn ei gynnig, cyn inni lunio cynigion pendant ar gyfer y bil. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y systemau a'r dyletswyddau presennol sy'n sbarduno penderfyniadau anghynaliadwy o fewn cyrff a'u canlyniadau anfwriadol. Y gobaith yw y gwnaiff cyfraniad eang a deallus at yr ymgynghoriad arwain at gynnwys cynigion effeithiol yn

² One Future, Different Paths – fframwaith cyffredin y DU ar gyfer datblygu cynaliadwy, Llywodraeth EM, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Gogledd Iwerddon, 2005.

³ Y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 15 Mai 2012.

y ddeddfwriaeth. Bydd hynny yn arwain at greu sefydliadau gwell a chryfach i ddarparu cymunedau cryfach, iachach, glanach a saffach.

Adran 1: Pwrpas ymgynghori

Pwrpas cyffredinol

1. Mae'r ddogfen ymgynghori yn disgrifio'n cynigion ar gyfer datblygu a chryfhau'r ffordd rydym am ymdrin â datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n ymwneud yn benodol â'n hymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu:

- Deddfu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- Creu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru.

Datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol

Mae datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol yn cyfeirio at y ffordd y dylai sefydliadau wneud penderfyniadau a rhoi polisiau a rhaglenni ar waith. Rydyn ni'n meddwl y dylai sefydliadau ddefnyddio syniadau datblygu cynaliadwy i lywio'u penderfyniadau fel eu bod yn cael eu hystyried drwy 'sbectol' datblygu cynaliadwy.

2. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dylanwadu ar ddatblygiad cynigion manwl y byddwn yn eu cynnwys ym Mhapur Gwyn y Bil Datblygu Cynaliadwy. Y bwriad yw cyhoeddi'r ail ymgynghoriad hwn yn hydref 2012.

3. Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n ei gwneud yn glir bod angen inni ystyried effaith tymor hir ein penderfyniadau heddiw, ar fywydau plant ein plant yn ogystal ag ar genedlaethau heddiw. Bydd ein holl bolisiau a'n rhaglenni'n dangos ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a thegwch er mwyn inni allu gwneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol inni.

4. Er mwyn hybu'n hamcanion o greu Cymru gynaliadwy, mae gennym raglen ddeddfu⁴ sy'n cynnwys nifer o Filiau. Fel ag y mae datblygu cynaliadwy'n elfen ganolog o'n Rhaglen Lywodraethu, mae'n elfen ganolog hefyd o'n rhaglen ddeddfu.

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â chynnig pwysig o fewn y rhaglen hon: i wella'n ffordd o sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

6. Yn y ddogfen ymgynghori hon, rydym yn ceisio'ch barn am:

- rhoi dyletswydd datblygu cynaliadwy ar sefydliadau penodol (adran 6);
- rôl a swyddogaethau corff datblygu cynaliadwy annibynnol newydd (adran 7);
- y rhwystrau sy'n atal cyrff rhwng gwneud penderfyniadau mwy tymor hir a chydgyssylltiedig a beth sydd angen ei wneud i chwalu'r rhwystrau hyn (adran 3);

⁴ Cyhoeddwyd y rhaglen ddeddfu gan y Prif Weinidog yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 12 Gorffennaf 2011.

- tystiolaeth arall ynghylch bwrw ymlaen â hybu datblygu cynaliadwy (adran 4);
- cyfleoedd i adolygu dyletswyddau cyfreithiol a symleiddio'r drefn gyfreithiol trwy'r Bil Datblygu Cynaliadwy (adran 6);
- rhinweddau defnyddio un diffiniad o "ddatblygu cynaliadwy" ar draws llyfr statud Cymru (adran 6).

7. Cewch wybod gennym hefyd sut y cewch gymryd rhan a dweud eich dweud. Rydym am glywed eich barn am ein cynigion. Dyma'ch cyfle chi i'n helpu ni i lunio'r ymrwymiad hwn a dyfodol gwell ar gyfer Cymru.

Adran 2: Cefndir – datblygu cynaliadwy

Pwrpas

8. Pwrpas yr adran hon yw esbonio cefndir datblygu cynaliadwy, beth yw datblygu cynaliadwy yn ein golwg ni, a'i berthynas â lles. Rydym ni hefyd yn esbonio'r materion allweddol ddylai fod yn ein barn ni yn sail i hybu syniadau datblygu cynaliadwy.

9. Daeth y term datblygu cynaliadwy at sylw'r byd yn sgil cyhoeddi adroddiad Comisiwn Brundtland i'r Cenhedloedd Unedig, *Our Common Future*, ym 1987⁵. Diffiniwyd datblygu cynaliadwy yn hwnnw fel: *development that meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs*.

10. Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu yn Rio de Janeiro ym 1992 oedd yr ymgais ryngwladol gyntaf i ddatblygu strategaeth ar gyfer patrwm cynaliadwy o ddatblygu ar draws y byd. Cafodd effeithiau pellgyrhaeddol ac ohoni y tyfodd pob gweithgarwch datblygu cynaliadwy ers hynny. Ym mis Mehefin eleni, bydd llywodraethau o bob cwr o'r byd yn cwrdd yn Rio eto ar gyfer Cynhadledd Rio + 20 y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy. Mae Cymru wedi cyfrannu at y trafodaethau rhyngwladol ers blynnyddoedd ac mae'r hyn a wnawn yn ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn effeithio ar wledydd a gwladwriaethau bychain eraill sy'n gweithio dros yr un canlyniadau ar gyfer eu pobl hwythau.

Ein diffiniad o ddatblygu cynaliadwy

11. Yn ein cynllun ar gyfer datblygu cynaliadwy, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, rydym yn rhoi diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy.

Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n

- hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau – gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd.

⁵ Our Common Future. Report of the World Commission on Environment and Development. Y Cenhedloedd Unedig, 1987.

12. Rydym yn esbonio yn y cynllun sut ydym yn ategu ac yn datblygu 5 egwyddor datblygu cynaliadwy y DU⁶. Yn ein barn ni, mae datblygu cynaliadwy'n broses ddatblygu fydd ymhen amser yn arwain at Gymru sy'n gynaliadwy o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Canlyniad hynny yw diogelu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir pobl a'u cymunedau.

13. Y canlyniadau tymor hir rydym am eu cyflawni yw:

- **Economi gynaliadwy:** economi fwy ffyniannus, byrlymus a blaengar, sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol, sy'n gryf yn wyneb newidiadau yn yr economi fyd-eang, trwy wneud Cymru y lle gorau i fusnesau ymgartrefu, tyfu a ffynnu ynddo.
- **Cymdeithas gynaliadwy:** cymunedau saffach, tecach, mwy deniadol a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gyfle cyfartal i bawb, lle caiff pobl wireddu eu potensial, a lle rydym yn gryf yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- **Cynnal yr amgylchedd naturiol:** amgylchedd cryf ag ynddo ecosystemau iach sy'n gweithio a chanddynt amrywiaeth fiolegol gyfoethog ac sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy i ddarparu bwyd, pren, dŵr, pridd, cynefinoedd a hamdden.
- **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy:** cymdeithas carbon isel a gwastraff isel sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear.
- **Lles Cymru:** (y mae pob un o'r canlyniadau uchod yn cyfrannu ato ond mae'n cynnwys hefyd:) bywyd iach ac ansawdd bywyd i bawb, cymdeithas a chanddi ymwybyddiaeth fyw o'i diwylliant, ei hiaith a'i threftadaeth, lle caiff amrywiaeth ddiwylliannol, ymdeimlad o le a gwahaniaeth eu dathlu a'u gwerthfawrogi.

Ein hagwedd at les

14. Yn dilyn ymchwil flaenorol⁷ i les, diffiniwyd lles yn ein cynllun datblygu cynaliadwy.

Lles

Rydyn ni'n diffinio lles fel cyflwr corfforol, cymdeithasol a meddyliol cadarnhaol; nid dim ond absenoldeb poen, anesmwythyd ac analluogrwydd mohono. Mae lles yn golygu diwallu anghenion sylfaenol, bod gan unigolion ymdeimlad o bwrpas, a'u bod yn teimlo y gallant gyflawni nodau personol pwysig a chwarae eu rhan mewn cymdeithas.

⁶ One Future; Different Paths – the UK's shared framework for sustainable development, Llywodraeth ei Mawrhydi, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Gogledd Iwerddon, 2005. 5 egwyddor y DU yw byw o fewn terfynau'r amgylchedd; sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn; sicrhau economi gynaliadwy; hybu llywodraeth dda; a defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn modd cyfrifol.

⁷ Wellbeing concepts and challenges. Discussion paper prepared by Fiona McAllister for the Sustainable Development Research Network, SDRN, Rhagfyr 2005

Mae lles yn cael ei wella drwy amodau sy'n cynnwys cydberthynas bersonol gefnogol, cymunedau cryf a chynhwysol, iechyd da, diogelwch ariannol a phersonol, cyflogaeth sy'n rhoi boddhad ac amgylchedd iach a deniadol. Sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl yw canlyniad cyflawni Cymru gynaliadwy.

15. Rydym yn gwybod bod llawer o ffactorau gwahanol yn dylanwadau ar les. Gwnaeth adroddiad Comisiwn Stiglitz⁸ nodi'r dylanwadau canlynol, gan argymhell y dylid rhoi ystyriaeth iddynt mewn egwyddor i gyd yr un pryd i hybu lles:

- Safonau byw materol (incwm, defnydd a chyfoeth).
- Iechyd.
- Addysg.
- Gweithgarwch personol gan gynnwys gwaith
- Llais gwleidyddol a llywodraethu.
- Cysylltiadau a pherthynas gymdeithasol.
- Yr amgylchedd (ei gyflwr heddiw ac yfory).
- Ansicrwydd economaidd a chorfforol.

16. Mae lles eisoes yn amcan cyfarwydd yn y sector cyhoeddus. Mae gan awdurdodau lleol eisoes amrywiaeth o bwerau eang⁹ i hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal¹⁰ Mae'r pŵer hwn yng Nghymru wedi'i estyn i gynghorau cymuned¹¹. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang i hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru o dan adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

17. Mae'r pynciau sy'n dylanwadau ar ein lles yn newid wrth inni heneiddio – mae'r hyn sy'n cyfrannu at ein lles pan fyddwn yn blentyn yn wahanol i'r hyn sy'n cyfrannu at ein lles pan fyddwn yn hen. Rydym eisoes yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am les plant a phobl ifanc yng Nghymru¹², ac am les pobl hŷn yng Nghymru¹³.

18. Rydym yn paratoi adroddiad bob blwyddyn ar les Cymru fel un o 5 prif ddangosydd datblygu cynaliadwy. Mae'r adroddiad yn seiliedig yn rhannol ar ein Harolwg Cenedlaethol lle mae lles yn un o'r prif themâu, ac sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gwestiynau am foddhad ag agweddau penodol ar fywyd. Mae'r

⁸ Report by the Commission on the measurement of economic performance and social progress, Joseph Stiglitz, Amartya Sena, a Jean-Paul Fitoussi, 2009

⁹ O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

¹⁰ cyn belled nad ydynt wedi'u rhwystro gan ddeddfwriaeth arall.

¹¹ gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

¹² Monitor lles plant a phobl ifanc Cymru 2011, Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn seiliedig ar themâu a gymerwyd o'n 7 amcan craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant

¹³ Monitor lles pobl hŷn Cymru 2009, Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn seiliedig ar naw dangosydd newid o'n Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cymru (2008-2013), a 18 egwyddor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Swyddfa Ystadegau Gwladol yn datblygu data am les ledled y DU, a daw mwy o ddata manwl ar gael am Gymru. Bydd canlyniadau gwaith manwl o'r fath ar gael o haf 2012 ymlaen.

19. Nid lles yn unig sy'n bwysig. Mae'r modd y mae lles wedi'i rannu trwy gymdeithas hefyd yn hanfodol i ddatblygu cynaliadwy. Adlewyrchir hyn yn ein hymrwymiad cryf i gyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal fel rhan o'n hymdrechion o blaid datblygu cynaliadwy.

Hybu ffordd datblygu cynaliadwy o feddwl

20. Yn ein barn ni, er mwyn hybu datblygu cynaliadwy i sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, nawr a thros y tymor hir, rhaid i'r sector cyhoeddus fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel ei brif egwyddor drefniadol. Ystyr hyn yw y dylai datblygu cynaliadwy fod yn ystyriaeth sy'n dylanwadu ar bob penderfyniad. Rydym yn nodi isod y prif ystyriaethau sy'n berthnasol i ffordd datblygu cynaliadwy o feddwl. Mae'r materion hyn yn adlewyrchu ffyrdd y gall sefydliadau ymddwyn wrth wneud penderfyniadau – gellir eu cyfrif yn **ymddygiadau datblygu cynaliadwy**. Rydym yn sôn amdanynt fel hynny yn adran 6. Rydym ni hefyd yn rhoi nifer o enghreifftiau darluniadol i ddangos beth mae'r materion hyn yn ei feddwl yn ymarferol ar draws sectorau gwahanol.

Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru'n helpu 150,000 o bobl ifanc, hen ac anabl bob blwyddyn. Darperir llawer o'r gwasanaethau ar y cyd â sefydliadau o'r sectorau tai, iechyd ac addysg. Bwriad Llywodraeth Cymru yw datblygu deddfwriaeth sy'n cynnal ac yn gwella **lles pobl anghenus**. Bydd dyletswydd i wneud hynny yn rhan o'r Bil.

Ein hystyriaeth bennaf yw'r angen i wneud y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'n gynaliadwy. Ein strategaeth ar gyfer cyflawni'r nod hwn yw *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*. Prif bwrpas y Bil yw darparu'r fframwaith deddfwriaethol inni allu rhoi'r strategaeth honno ar waith.

Mae darparu gwasanaethau addas yn golygu'n aml ymyrryd yn gynt, sef un o egwyddorion canolog Llywodraeth Cymru wrth ymdrin â datblygu cynaliadwy. Bydd rhan o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn annog strategaethau ataliol a ffynonellau cymorth fydd yn esgor ar ganlyniadau gwell i bobl; bydd hynny gobeithio yn arbed gorfod dibynnu ar ymyriadau diweddarach mwy costus.

Amcan y deddfwriaeth yw rhoi llais cryfach a rheolaeth go iawn i unigolion ar eu gwasanaethau, er mwyn iddynt allu deall sut y gall y gofal a'r cymorth eu helpu. Bydd yn rhoi dyletswydd hefyd ar y gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG i gydweithio ar sut i ddarparu gwasanaethau integredig.

Meddwl yn y tymor hir

21. Cafodd pwysigrwydd ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol ei gydnabod yng Nghomisiwn Brundtland a ddywedodd: nid oes gan genedlaethau'r dyfodol bleidlais na grym gwleidyddol nac ariannol. Dydyn nhw ddim yn gallu herio penderfyniadau. Ond mae canlyniadau afradedd y presennol yn cyfyngu'n gyflym ar yr opsiynau fydd yn agored i genedlaethau'r dyfodol.

22. Mae llawer o resymau pam nad yw'r effeithiau tymor hir positif a negyddol ar les cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried mor aml ag y dylent wrth wneud penderfyniadau heddiw. Mae llawer o anawsterau o wneud hyn – ansicrwydd a diffyg gwybodaeth am y dyfodol; cylchoedd ariannol neu wleidyddol tymor byr; yr angen i gyrraedd targedau neu amcanion cyfredol. Wrth gynnal asesiadau economaidd ffurfiol, mae bosibl bod y broses o ddiystyru costau a buddiannau'r dyfodol yn golygu bod llai o bwyslais yn cael ei roi ar les cenedlaethau'r dyfodol¹⁴.

23. Yn ein barn ni, mae lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cenedlaethau'r dyfodol yn ddigon pwysig i gyfiawnhau bod y sector cyhoeddus yn ei ystyried wrth benderfynu ar bethau sy'n dylanwadu fwyaf ar les. Gallai hynny gynnwys ystyried costau a buddiannau tymor hir penderfyniadau.

24. Er mwyn ein helpu i feddwl yn y tymor hir, rydym wedi cyhoeddi¹⁵ ein dadansoddiad o sut y gallai tueddiadau tymor hir effeithio ar ddyfodol Cymru.

25. Daw buddiannau i sefydliadau o feddwl yn y tymor hir. Trwy fynd ati i ystyried goblygiadau penderfyniadau heddiw ar les tymor hir, mae modd "diogelu" penderfyniadau at y dyfodol – gan helpu i gwrdd ag anghenion cenedlaethau heddiw ac yfory lle medrir. Gall meddwl yn y tymor hir helpu i glustnodi a lleddfu neu leihau costau tymor hir anfwriadol gan esgor yn y tymor hir ar arbedion effeithlonrwydd. Gall meddwl yn y tymor hir hybu arloesi a syniadau newydd hefyd wrth ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau yn y sector cyhoeddus. Gall y buddiannau hyn ddiogelu a gwella enw da sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Y dyfodol a rhagweld y dyfodol

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, trwy'r Fframwaith Datblygu Cynaliadwy, wedi bod yn annog awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Lleol i ddatblygu dulliau a thechnegau **meddwl tymor hir** ar gyfer eu **strategaethau a'u partneriaethau**.

Gan ddefnyddio Senarios o'r Dyfodol sy'n ystyried sut i ddiogelu'r cyflenwad ynni a bwyd, addasu i'r hinsawdd, carbon isel a newid economaidd a demograffig, mae uwch swyddogion, aelodau a phartneriaid y Byrddau Lleol wedi cael eu hannog i ystyried ymyriadau polisi a llywodraethu allai cryfhau'u cymunedau. Bu hyn yn

¹⁴ Mae canllawiau'r Trysorlys yn argymhell cyfradd ddisgownt o 3.5% ar gyfer costau a manteision dros 30 mlynedd cyntaf prosiect, yn seiliedig ar y dewisiad amser cymdeithasol, gyda chyfraddau disgownt is ar gyfer costau a manteision tymor hir. HM Treasury. The Green Book – Appraisal and evaluation in central government. HM Treasury, 2003

¹⁵ Understanding Wales' Future – a resource to help us think systematically about the future of Wales. Llywodraeth Cymru, 2011

ddefnyddiol i helpu i ddeall y prif dueddiadau ond hefyd i roi cyd-destun i broblemau tymor hir mwy 'haniaethol' ac i'r hyn y mae datblygu *cynaliadwy* yn ei olygu yn lleol.

Mae Dinas a Sir Abertawe wrthi'n defnyddio'r technegau hyn i ystyried ffyrdd i gynllunio Gwasanaethau Ariannol, Gwasanaethau i Oedolion, y Cynllun Integredig Sengl ac adfywio economaidd at y tymor hir.

Mae'r technegau hyn yn helpu awdurdodau i feddwl yn y tymor hir tra'n cydnabod cyfyngiadau ein cylchoedd gwleidyddol ac ariannol tymor byr presennol. O'u defnyddio'n dda, dylent gynnig yr 'achos busnes' dros newid trywyddau anghynaliadwy cyfredol.

<http://www.wlga.gov.uk/english/futures-masterclass-resources/>

Integreiddio

26. Er mwyn hybu lles tymor hir, ni allwn ganolbwyntio'n llwyr ar ddim ond un neu ddau o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar les a restrir uchod. Ac ni allwn ganolbwyntio ar un ohonynt ar draul y lleill. Rhaid ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar les (a'r berthynas rhyngddynt) i gyd gyda'i gilydd mewn ffordd integredig.

27. Rydym ni'n credu y dylai sefydliadau glustnodi ac integreiddio'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth wneud penderfyniad, a lle bo rhai ar eu hennill ar draul rhai eraill, dylid rheoli hynny'n ofalus trwy ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy.

Porth Teigr

Cyd-fenter yw Porth Teigr rhwng Igloo (cronfa fuddsoddwyr gan Aviva) a Llywodraeth Cymru. Mae'n brosiect datblygu cynaliadwy, defnydd cymysg ar 38 erw (2.2 miliwn tr²) o dir ym Mae Caerdydd, **sy'n integreiddio'r economi, cymdeithas a'r amgylchedd**, ac yn un o'r prosiectau adfywio glan-dŵr mwyaf blaenllaw yn Ewrop. Y datblygiad hwn yw darn olaf jigsô Harbwr Mewnol Bae Caerdydd a fydd yn gweddnwedd y darn olaf o dir llwyd yn y Bae yn amgylchedd i'r 21ain ganrif.

Prif nodwedd Porth Teigr yw stiwdios Porth y Rhath, cartref rhai o raglenni mwyaf poblogaidd y BBC gan gynnwys Doctor Who, Casualty, Pobol y Cwm ac Upstairs Downstairs. Mae Porth y Rhath wedi sicrhau gradd 'outstanding' o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd gan BREEAM – y sgôr uchaf y mae'n bosibl ei chael a'r adeilad cyntaf ym Mhrydain i ennill y dystysgrif. Yng nghanm nesa'r prosiect, bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu Canolfan Diwydiannau Creadigol newydd, 40,000 tr sg o faint. Mae'r holl waith yn helpu i droi Porth Teigr yn ganolbwynt creadigol i'r rhanbarth gan gynnig gwaith a chyfleoedd i fusnesau a chanddynt botensial mawr i dyfu. Pan ddaw'r prosiect i ben, bydd yn cynnig gwaith i ryw 8,000 o bobl.

Gweithio ar draws ffiniau sefydliadau

28. Yn ein barn ni, mae'r prif heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn rhychwantu ffiniau sefydliadol a gweinyddol. Mae papur diweddar gan Raglen dros Gynaliadwyedd¹⁶ Prifysgol Caergrawnt yn cefnogi hyn. Er sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, rhaid edrych ar bynciau llosg o safbwynt y "system gyfan". Mae angen inni wneud yn siŵr bod ein heconomi, cymdeithas ac amgylchedd i gyd yn ddigon cryf i allu wynebu newid yn y dyfodol, gan gyfrannu at les tymor hir.

29. Mae angen i benderfynwyr sylweddoli felly sut gall eu penderfyniadau gyfrannu at neu ddirywio ieuchyd tymor hir yr economi, cymdeithas neu'r amgylchedd, gan gynnwys eu heffeithiau ar grwpiau neu ardaloedd penodol. Gallai penderfyniad yn un rhan o'r sector arwain at niwed anfwriadol, ac felly costau ychwanegol, mewn rhan arall. Yn arbennig, gallai methiant yn un rhan o'r sector cyhoeddus arwain at lawer o gostau a chanlyniadau ar gyfer rhannau eraill y sector cyhoeddus. Er mwyn rhwystro hynny, rhaid wrth broses benderfynu ddi-fwlch ar draws ffiniau sefydliadau, a gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio ac sy'n cael eu darparu i roi'r dinesydd yn gyntaf.

30. Rydym ni'n credu y dylai sefydliadau edrych ar benderfyniadau o safbwynt y system gyfan. Gallai hynny olygu sylweddoli beth yw effeithiau, costau a buddiannau penderfyniad mewn rhan arall o'r sector cyhoeddus, a'u rheoli mewn partneriaeth.

31. Mae uno gwasanaethau cyhoeddus fel hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein gwaith â'r Byrddau Iechyd Lleol, lle mae arweinwyr cyrff cyhoeddus lleol a mudiadau'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac yn rhoi'r dinesydd yn gyntaf. Rydym wedi ymgynghori ar y canllaw statudol newydd¹⁷ a fydd yn integreiddio prosesau cynllunio gwasanaethau lleol, yn hwyluso gweithio mewn partneriaeth ac yn cryfhau rôl ac atebolrwydd strategol y bwrdd gwasanaethau lleol. Mae hyn yn arwydd clir o'n hymrwymiad i hybu datblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Dyfodol wedi'i gydgyllunio: Rôl y trydydd sector mewn iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Hywel Dda

Mae gwasanaethau'r trydydd sector wastad wedi bod yn hanfodol i helpu cleifion a'u gofalwyr, ond prin yw'r gydnabyddiaeth sy'n cael ei roi iddo. Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Cyngor Iechyd y Gymuned ac Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Cynghorau Gwirfoddol Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro wedi edrych ar bethau o safbwynt y system gyfan i gydgyllunio rôl y trydydd sector wrth ofalu am gleifion. Hynny yw:

- **Cryfhau cydweithio** rhwng y trydydd sector, ysbytai a meddygon teulu, gan wella'r broses ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau a chyflenwi adnoddau;

¹⁶ Regulation and the edge. Regulation for resilience – a regulatory revolution for sustainability. Terry A'Hearn, University of Cambridge Programme for Sustainability, 2011

¹⁷ Cydamcanu – Cydymdrechu – dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, Ionawr 2012

- **Annog gwirfoddoli** trwy gynyddu cyfleoedd a hyfforddiant i wirfoddolwyr a datblygu cod ymarfer cynaliadwy;
- **Helpu gofalwyr di-dâl;**
- **Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol** mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymhlith y canlyniadau fydd anfon llai o gleifion i'r ysbyty a gwella'r cynlluniau rhyddhau. Yr ethos yw cryfhau'r gymuned, yn arbennig trwy gydnabod a chefnogi rôl gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar cyn i bobl fynd yn dost neu cyn bod angen gwasanaethau dwys.

Canolbwyntio ar atal

32. Egwyddor bwysig arall yw taclo problemau yn eu bôn yn hytrach na cheisio datrys canlyniadau'r problemau hynny'n ddiweddarach. Mae modd defnyddio'r egwyddor hon mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau economaidd, cymdeithasol, iechyd ac amgylcheddol, ac o fewn sector cyhoeddus datganoledig Cymru'n gyfan.

33. Mae gan y ffordd hon o weithio y potensial i arwain at arbedion tymor hir. Er enghraifft, yn ôl adroddiad gan y Comisiwn Archwilio¹⁸ yn Lloegr, os ydy'r system cyfiawnder cymdeithasol yn delio â pherson ifanc sy'n dechrau dangos problemau ymddygiad yn 5 oed, byddai hynny wedi costio £207,000 i'r trethdalwr erbyn iddo gyrraedd ei 16 oed. Cost ymyriadau eraill i newid ei ymddygiad fyddai tua £47,000.

34. Rydym yn credu felly y dylai sefydliadau ganolbwyntio mwy ar atal problemau rhag digwydd trwy ddewis ymyriadau cynnar tyngedfennol a allai arwain at arbedion yn y tymor hir.

Defnyddio ymgyrch iechyd cyhoeddus i leihau trais yn yr Alban:

Yn 2005, penderfynodd Uned Lleihau Trais yr Alban fynd ar drywydd iechyd cyhoeddus i dacio troseddau treisiol, gan weithio gyda phartneriaid iechyd ac addysg, a chyda grwpiau cymunedol. Y nod oedd ymyrryd i rwystro trais yn hytrach na delio â'r canlyniadau. Roedd hyn yn cynnwys:

- **Casglu tystiolaeth systematig** am achos y trais, ac am yr anafiadau a gofnodwyd gan y gwasanaeth iechyd;
- **Ymyrryd yn gynnar yn yr ysgolion:** Heddlu ar y cwmpas a "Medics against violence" i ddarparu adnoddau yn erbyn bwllian ac i ddatrys anghydfodau, ac i siarad am ganlyniadau trais. Roedd "Parentline" yn cynnig help i rieni.
- **Partneriaethau Diogelwch yn y Gymuned:** yr heddlu, iechyd, addysg a gwasanaethau eraill i gynnig cymodi yn y gymuned, gweithgareddau i

¹⁸ Tired of hanging around. Using sport and leisure activities to prevent anti-social behaviour by young people, Y Comisiwn Archwilio, 2009.

bobl ifanc a thrafnidiaeth well allan o'r ddinas yn y nos;

- **Y gymuned a'r heddlu'n gweithio gyda gangiau**, i'w gwahodd i glywed profiadau rhieni sydd wedi colli plant, dioddefwyr a meddygon A&E, a'u helpu i newid eu bywydau.

Yn 2010 cofnodwyd y lefelau isaf o droseddau treisiol yn yr Alban ers 1986.

Cymryd rhan

35. Un o egwyddorion sylfaenol datblygu cynaliadwy yw rhoi cyfle i'r rheini y bydd penderfyniad yn debygol o effeithio arnyn nhw gael dweud eu dweud, gan ei fod yn cyfrannu at wella canlyniadau ac at gefnogaeth y cyhoedd i'r canlyniadau hynny. Ceir enghreifftiau penigamp o'r ffordd hon o weithio ym mhob rhan o Gymru.

Gwneud i orsaf dân weithio i'r gymuned

Yn 2007, cafodd adeilad segur ei weddnewid gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRS) a'i droi'n orsaf dân gymunedol – y gyntaf o'i bath. Ceir ynddi'r cyfleusterau tân ac achub diweddaraf, cyfleusterau addysgu am ddiogelwch rhag tanau a stafell gymuned boblogaidd.

Gofynnodd NWFRS i bobl y gymuned beth carent ei gael ac ymchwilio i'r ffordd orau i ddefnyddio'r orsaf i addysgu'r henoed a grwpiau bregus sut i ddiogelu'u hunain rhag tanau.

Mae'r cyfleusterau newydd yn cynnwys ystafelloedd cyfarfod a chyfrifiaduron i'r gymuned. Mae 14,000 o bobl yn galw bob blwyddyn ac mae 200 o grwpiau, fel uned adsefydlu'r galon, Relate, Coleg Harlech a grwpiau chwarae, yn eu defnyddio. Mae rhai grwpiau'n cael defnyddio'r cyfleusterau am ddim, cyn belled â'u bod yn cael pobl i ofyn am Archwiliadau Diogelwch Tân yn eu cartrefi a bod yr NWFRS yn cael sôn wrthynt am ddiogelu'r gymuned rhag tân.

Mae hyn wedi gwella'r cysylltiadau rhwng yr NWFRS a'r cyhoedd, gan roi cyfle iddynt gwrdd â grwpiau anodd eu cyrraedd mewn lle cyfforddus ac anffurfiol. Canlyniad hynny oedd mwy o ymweliadau archwilio cartrefi a mwy o ymwybyddiaeth am ddiogelwch y gymuned.

Crynodeb

36. Bydd angen i bob un o'r ymddygiadau datblygu cynaliadwy uchod ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir, gyda thystiolaeth yn sail gadarn i bob un. Bydd casglu tystiolaeth i gefnogi pob un o'r ymddygiadau yn sicrhau eglurder ynghylch y dewisiadau a wynebwr gan helpu i alinio penderfyniadau â datblygu cynaliadwy mewn ffordd gyson.

37. Byddwn am weld pob sefydliad yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ystyriaeth o'r holl gostau a buddiannau, gan gynnwys y costau a'r buddiannau tymor

hir, costau cyfle¹⁹, a chostau a buddiannau ar draws ffiniau sefydliadol a gweinyddol, lle medrir. Rydym am i benderfyniadau gael eu gwneud ar ôl ystyried yr effeithiau ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gwahanol rannau o'r gymdeithas ac ardaloedd gwahanol, gan gynnwys yr effeithiau ar les cenedlaethau'r dyfodol.

38. Rydym yn gwybod bod hyn yn her anodd a thymor hir, a bydd sicrhau bod pawb yn mabwysiadu meddylfryd datblygu cynaliadwy wrth ystyried pob penderfyniad yn daith yn hytrach nag yn ddigwyddiad. Yn ein barn ni, bydd ein cynigion ar gyfer bil datblygu cynaliadwy yn gam pwysig ar y daith honno.

¹⁹ Costau cyfle yw gwerth y dewis nesaf gorau. Nid yw'n gyfyngedig i gostau ariannol neu gyllidol.

Adran 3: Sut ydym ni'n hybu datblygu cynaliadwy


Pwrpas y bennod hon

39. Mae'r adran hon yn esbonio sut ydym yn hybu datblygu cynaliadwy ar hyn o bryd. Mae'n rhoi'r cyd-destun bras ar gyfer ystyried ein cynigion deddfwriaethol sy'n cael eu rhestru yn adran 6, ac ar gyfer ein cynigion ar gyfer corff datblygu cynaliadwy a welir yn adran 7.

Sut ydym yn hybu datblygu cynaliadwy

40. Bydd newid i ddiwylliant lle mae pob penderfyniad yn cael ei wneud er sicrhau'r canlyniadau tymor hir gorau, hynny gan sefydliadau sy'n pennu ac yn darparu polisi mewn ffordd gydgysylltiedig gan roi ystyriaeth i anghenion cenedlaethau'r dyfodol, yn golygu newid mawr yn ein hagweddau, ein hymddygiad a'n galluoedd.


41. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu model effeithiol ar gyfer sbarduno'r math hwn o newid tymor hir. Ein henw arno yw 'trywydd y Pedwar E'²⁰. Y cyfan ydyw yw ystyried yr holl ddylanwadau sy'n gorfod gweithio gyda'i gilydd er mwyn sbarduno'r newid.



42. Er mwyn i'r trywydd hwn allu ymwreiddio'n llawn, mae'n werth defnyddio trywydd y '4 + 2E', sy'n ychwanegu archwilio (exploring) a gwerthuso (evaluating), sy'n golygu y gellid newid y trywydd gwreiddiol a'i newid wrth i'r sefyllfa newid.

²⁰ A framework for pro-environmental behaviours, Defra 2008. Rydym yn cyfeirio at drywydd y 4E yn ein canllaw a'r cyngor i gefnogi'r Siarter Datblygu Cynaliadwy.

4+2 Es approach to behaviour change



43. Mae angen inni barhau i ymchwilio i'r sefyllfa, gan nodi cyfleoedd sy'n bod nawr ac efallai yn y dyfodol i 'annog', 'cynnwys', 'galluogi' ac 'arddangos' ymddygiad mwy cynaliadwy, gan eu dwyn ynghyd mewn rhaglen weithredu ystyrlon. Dyma'r hyn y byddwn yn cynnig ei wneud dros gyfnod datblygu'r ddeddfwriaeth.

44. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn nodi prif sbardunau arferion anghynaliadwy, a byddem yn croesawu cyfraniadau fyddai'n ein helpu i'w hadnabod. Cyn y gallwn obeithio creu rhaglen weithredu lwyddiannus, rhaid gwybod beth yw'r dylanwadau presennol a'u hachosion.

Cw. Beth yw'r rhwystrau mwyaf rydych yn eu hwynebu rhag gwneud mwy o benderfyniadau cydgysylltiedig tymor hir?

Cw. Beth sydd angen ei wneud a chan bwy i leihau neu chwalu'r rhwystrau hyn?

45. Mae gennym nifer o raglenni ar waith eisoes i gefnogi'r newid hwn, ac rydym yn eu rhestru isod o dan benawdau'r 4E.

Annog (Encourage)	Galluogi (Enable)
Cynllun datblygu cynaliadwy Adroddiad Blynnyddol datblygu cynaliadwy	Fframwaith datblygu cynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol Ymchwil i gynaliadwyedd Elfen datblygu cynaliadwy o'r cymorth i fusnesau
Arddangos (Exemplify)	Cynnwys (Engage)
Rhaglen Lywodraethu Cynllun datblygu cynaliadwy Cyfraniad y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy at bolisi	Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Siarter Datblygu Cynaliadwy Wythnos Cynaliadwyedd Cymru Cynnal Cymru Eiriolwyr Datblygu Gwledig Rhaglen Eco-ysgolion

46. Ceir rhwydwaith o sefydliadau sydd wedi llofnodi'n Siarter Datblygu Cynaliadwy ar draws pob rhan o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Maent wedi ymrwymo o'u gwirfodd i wneud datblygu cynaliadwy'n ganolog i bopeth a wnânt. Mae BT yn perthyn i'r rhwydwaith a dangosir manteision datblygu cynaliadwy iddynt yn yr astudiaeth achos isod.

TGCh fel dull trafnidiaeth

Yn BT, mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn cael ei ystyried yn ddull trafnidiaeth. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio TGCh pa bryd bynnag fo hynny'n bosibl a'r nod yw i TGCh fod yn ddewis cyntaf yn y dyfodol yn hytrach na'r dull teithio olaf a ddewisir.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2011, amcangyfrifwyd bod 9,400 o weithwyr cartref BT ym Mhrydain (12-3%) wedi arbed 1.4 tunnell, ar gyfartaledd, o allyriadau CO₂e y flwyddyn trwy beidio â theithio i'r gwaith a thrwy ddefnyddio llai o ynni yn y swyddfa (gan ystyried yr ynni ychwanegol a ddefnyddir mewn cartrefi). Hefyd, cafodd 69,000 o bobl BT weithio'n hyblyg a thrwy hynny dewis y lle mwyaf addas i weithio ynddo, yn unol â gofynion y busnes.

Mae hyn hefyd yn ei gwneud yn haws i bobl sydd ag anableddau a/neu sydd â chyfrifoldebau gofalu weithio. Canlyniad y polisïau gweithio hyblyg hyn yw bod 99% o famau newydd yn dychwelyd i weithio ar ôl eu cyfnodau mamolaeth.

Trwy gynnig opsiynau gweithio hyblyg, mae BT yn gobeithio denu a chadw'r talentau gorau. Pan fydd tywydd drwg fel iâ ac eira'n bygwth tarfu ar eu gwaith, mae gweithio hyblyg yn golygu bod ein gweithwyr yn gallu gweithio yn y swyddfa gyfleus agosaf.

47. Mae ein ffordd ni o greu newid hefyd yn defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy: rydym am ennyn diddordeb pobl a'u galluogi i weithredu fel ag sy'n gymwys i'w hamgylchiadau, gan mai dyma'r ffordd orau yn ein barn ni i sicrhau ymrwymiad tymor hir heb faich gweinyddu a gorfodi. Rydym wedi bod yn rhoi'r pwyslais ar alluogi hyd yma, yn hytrach nag annog trwy drethi neu reoliadau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar un elfen benodol, y ddeddfwriaeth arfaethedig. Bwriedir iddi roi anogaeth gref i'r sector cyhoeddus weithredu yn unol â'r dull datblygu cynaliadwy o wneud pethau, ond trwy alluogi yn hytrach na bod yn faich.

48. Nid ymgynghori ar sut ydym am ennyn diddordeb yw diben y ddogfen hon. Mae mwyafrif y fframwaith cefnogol felly yn amherthnasol i'r ymgynghoriad. Ond, mae'r elfen hon yn berthnasol wrth ystyried natur y ddyletswydd arfaethedig a rôl corff yn y broses hon, a bydd adrannau 6 a 7 yn ymdrin â hyn yn fanylach. Cewch weld mwy o wybodaeth am bob agwedd ar ein gwaith ar wefan Llywodraeth Cymru²¹.

²¹ Am fwy o wybodaeth, ewch i www.cymru.gov.uk/datblygucynaliadwy

Adran 4: Dysgu o'n hagwedd at ddatblygu cynaliadwy

Pwrrpas

49. Pwrrpas yr adran hon yw ystyried yn fras sut mae ein hagwedd ni at ddatblygu cynaliadwy wedi aeddfedu a beth ydym wedi'i ddysgu o hynny. Rydym hefyd am edrych ar y dystiolaeth y mae'r dangosyddion datblygu cynaliadwy wedi'u rhoi inni.

Y ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru/Gweinidogion Cymru

50. Mae dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac yna ar Weinidogion Cymru o dan adran 79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n gofyn iddynt lunio cynllun sy'n esbonio sut y bwriadant, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, hybu datblygu cynaliadwy.

51. Yn fras felly, mae llawer o'r cynlluniau a'r arfarniadau rydym wedi'u cynnal yn brawf ein bod wedi rhoi cyfran fawr o'r prosesau ar gyfer ymwreiddio datblygu cynaliadwy yn eu lle ond mewn rhai rhannau o'r sefydliad, mae datblygu cynaliadwy yn dal i gael ei weld fel un o nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn hytrach na'r brif flaenoriaeth y dylid seilio penderfyniadau arni. Mae adolygiadau wedi dangos y dylid meddwl am ddatblygu cynaliadwy fel taith, yn hytrach na digwyddiad.

Dysgu o'n hagwedd at ddatblygu cynaliadwy

Roedd cynlluniau gweithredu yn cyd-fynd â'n dau gynllun datblygu cynaliadwy cyntaf. Daeth adolygiad statudol²² o effeithiolrwydd yr agwedd hon i'r casgliad bod hyn yn arwain at 'seilos arloesi' o ran datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru. Mewn adolygiad gwahanol gan Swyddfa Archwilio Cymru²³ yn ymchwilio i sut rydyn ni wedi ymgorffori datblygu cynaliadwy yn ein penderfyniadau busnes, nodwyd fod datblygu cynaliadwy'n cael ei ystyried yn un o nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn hytrach na ffordd o reoli'r blaenoriaethau hyn. Mae'n cynllun presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn adlewyrchu'r gwersi hyn, ac yn cadarnhau mai datblygu cynaliadwy yw'n prif egwyddor drefniadol. Nodwyd mewn adolygiad yn 2011 o'n cynllun datblygu cynaliadwy fod nifer o bolisiâu a rhaglenni uchel eu proffil wedi dangos gwaith effeithiol ar draws adrannau, a lle mae hyn wedi digwydd, cafwyd canlyniadau polisi gwahanol a gwell, sy'n dangos bod ffocws ar ddatblygu cynaliadwy yn ychwanegu at werth²⁴.

²² Adroddiad ar effeithiolrwydd datblygu cynaliadwy ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, Netherwood Sustainable Futures, Mawrth 2008

²³ Datblygu cynaliadwy a gwneud penderfyniadau busnes yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2010

²⁴ Er enghraifft, soniodd yr adolygiad effeithiolrwydd statudol annibynnol o'n cynllun datblygu cynaliadwy am *Arbed* (ein rhaglen buddsoddiad perfformiad ynni strategol), ein *Rhaglen Adnewyddu'r Economi*, ein *Strategaeth Tlodi Plant*, *Ein Dyfodol Iach* (yn amlinellu uchelgeisiau ar gyfer iechyd y cyhoedd) a'n *Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd*.

Dyletswyddau datblygu cynaliadwy eraill

52. Mae rhai cyrff yn y sector cyhoeddus eisoes yn gorfod cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, rhaid i awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru bennu amcanion gwelliant parhaus iddynt eu hunain a ddylai gynnwys amcanion sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Mae disgwyl hefyd i awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol ac mae hwnnw hefyd i fod cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

53. O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1994, prif amcan Asiantaeth yr Amgylchedd yw diogelu neu gyfoethogi'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd, gan gyfrannu at wireddu'r nod o gyflawni datblygu cynaliadwy. Rhaid i'r Asiantaeth yng Nghymru gydymffurfio â'r canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Maent yn pennu'r egwyddorion y mae'n rhaid iddi eu dilyn wrth benderfynu ar ei blaenoriaethau.

54. Yn ôl arolwg yn 2006²⁵, gall dyletswydd roi: pwysigrwydd symbolaidd a chyfreithlon i ddatblygu cynaliadwy; codi proffil datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth amdano; ffurfioli cyfraniad corff at ddatblygu cynaliadwy; sbardun dros gynnydd cyflymach; annog ystyriaeth o atebion mwy cynaliadwy; a sbardun dros gydweithio.

55. Fodd bynnag, nid yw dyletswydd yn ddigon ynddo'i hun i sicrhau bod datblygu cynaliadwy'n cael ei brif ffyrddio. Y farn oedd mai'r ffactor pwysicaf i sbarduno sefydliadau i hybu datblygu cynaliadwy yw arweiniad rheolwyr. Barnwyd bod mecanweithiau i graffu p'un a yw'r ddyletswydd yn cael ei gwneud neu beidio; pwysau gan randdeiliaid allanol; a chanllawiau (statudol neu anstatudol) ar ddehongli a gweithredu hefyd yn bwysig.

Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy

56. Ers cyhoeddi Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, rydym wedi cyhoeddi tri adroddiad blynyddol sy'n disgrifio sut mae'r cynigion yn y cynllun wedi cael eu rhoi ar waith. Rydym wedi cymharu'n cynnydd â'n dangosyddion datblygu cynaliadwy ers 2002 a dangosir y tueddiadau diweddar²⁶ mewn perthynas â'r dangosyddion hyn yn y tabl isod. Mae'r dangosyddion yn ymwneud ag ystod eang o dueddiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylchedd, ac yn cynnwys ein 5 prif egwyddor datblygu cynaliadwy.²⁷

²⁶ Review of statutory sustainable development duties, Serena Cussons, adroddiad ar gyfer Defra, 2006.

²⁶ Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru 2008 (SDR 126/2008), 2009 (SDR 129/2009), 2010 (SDR 127/2010), 2011 (SDR 147/2011). Diben y tabl yw rhoi darlun bras. Nid oes gan bob dangosydd yr un flwyddyn sylfaen ar gyfer mesur newid. Gall fod ychydig bach o wahaniaeth yn y dangosyddion flwyddyn ar ôl blwyddyn.

²⁷ Ein 5 prif ddangosydd datblygu cynaliadwy yw cynnydd economaidd, cynnydd cynnydd amgylcheddol, cymdeithasol, cynnydd o ran defnyddio llai o adnoddau a lles Cymru. Rydyn ni'n pwysleisio y dylid ystyried y prif ddangosyddion gyda'i gilydd i roi golwg lefel uchel ar ein cynnydd tuag at fod yn wlad gynaliadwy.

	2008	2009	2010	2011
Dangosyddion sy'n dangos gwelliant clir	15 (38%)	18 (44%)	17 (39%)	19 (43%)
Dangosyddion ag ychydig o newid neu ddim newid	12 (31%)	14 (34%)	22 (50%)	18 (41%)
Dangosyddion sy'n dangos dirywiad clir	6 (15%)	5 (12%)	1 (2%)	4 (9%)
Dangosyddion heb ddata neu ddata annigonol	6 (15%)	4 (10%)	4 (9%)	3 (7%)
Holl ddangosyddion	39 (100%)	41 (100%)	44 (100%)	44 (100%)

57. Ar y cyfan, mae'r patrwm yn dangos tuedd am i fyny yn nifer y dangosyddion sy'n dangos gwelliant clir, a chynnydd araf yn nifer y dangosyddion sy'n dangos ychydig o newid neu ddim newid.

58. Ar y llaw arall, gwelwyd gostyngiad araf yn nifer y dangosyddion sydd heb ddata neu ddata annigonol; ond nifer fach ond amrywiol o ddangosyddion sy'n dirywio. Weithiau, gwelir dangosyddion sy'n dirywio un flwyddyn, ac yn sefydlog neu'n gwella y flwyddyn wedyn (ac fel arall).

59. Ar gyfer rhai dangosyddion (fel poblogaethau adar magu) ac am amrywiaeth o resymau, mae'n gallu bod yn anodd gweld y cyswllt rhwng polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru a'r newid yn y dangosyddion penodol. Mewn achosion eraill (fel cyfran gwastraff cartrefi sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio), mae effaith ein polisïau a rhaglenni ar ddangosydd yn gliriach.

Crynodeb

60. Mae'r bennod hon wedi edrych sut ydym yn meithrin ein ffordd i hybu datblygu cynaliadwy. Rydym wedi dysgu bod y broses o wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol yn daith yn hytrach nag yn ddigwyddiad. Fel rhan o'r daith honno, rydym wedi rhoi'r gorau i gynlluniau gweithredu, i ystyried datblygu cynaliadwy fel un o nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, ac i weithio o fewn seilos arloesi. Rydym wedi dysgu bod angen datblygu cynaliadwy arnom fel prif egwyddor drefniadol.

61. Rydym wedi dysgu bod angen inni fod yn gliriach ynghylch sut i ddehongli datblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol a sut y bydd yn effeithio ar feysydd polisi gwahanol. Ond yn bwysicach na dim, rydym yn credu bod ein hadolygiad diweddaraf o effeithiolrwydd yn dangos bod mabwysiadu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol yn esgor ar ganlyniadau polisi gwahanol a gwell.

62. Rydym wedi gweld mai dim ond rhyw 40% o'n dangosyddion datblygu cynaliadwy sy'n dangos gwelliant clir. Rydym ni'n credu bod angen inni wella'n gyflymach fel bod mwy o ddangosyddion yn gwella.

Cw. Pa dystiolaeth arall sy'n bod sy'n dangos bod yr agenda datblygu cynaliadwy ar gynydd a bod Datblygu Cynaliadwy'n cael ei fabwysiadu fel prif egwyddor drefniadol cyrff cyhoeddus?

Adran 5: Y ddadl dros gryfhau ein ffordd o fynd ati

63. Gwelsom yn yr adran flaenorol dystiolaeth bod mabwysiadu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol yn esgor ar ganlyniadau polisi gwahanol a gwell.

64. Mae'r trywydd hwnnw wedi golygu cyfuno'r cynigion gwirfoddol (gweler adran 3) a sbardunau statudol. Ceir enghreifftiau ardderchog o hybu datblygu cynaliadwy ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

65. Rydym wedi defnyddio deddfwriaeth i gryfhau rhai elfennau allweddol o ddatblygu cynaliadwy – cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Rydym wrthi'n ymgynghori²⁸ ar gynigion i gryfhau rôl datblygu cynaliadwy o fewn y system gynllunio, trwy gyflwyno datganiad clir sy'n rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy o fewn Polisi Cynllunio Cymru.

66. Fodd bynnag, mae diffyg cysonder yn y ffordd yr eir i'r afael â hyn. Yn ein barn ni, er mwyn hybu'r math o newid tymor hir rydym am ei weld, rhaid wrth fwy o gysonder ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus.

67. Rydym wedi defnyddio'r tabl ym mhennod 3 i ganfod bylchau o ran rhoi datblygu cynaliadwy ar waith, yn seiliedig ar fodel y 4 E.

Annog (Encourage)	Galluogi (Enable)
Dyletswydd datblygu cynaliadwy newydd ar rai sefydliadau Rôl bosibl Archwilydd Cyffredinol Cymru i graffu ar ddatblygu cynaliadwy	Cefnogaeth i feithrin galluoedd i wneud datblygu cynaliadwy yn ganolog i waith sefydliadau Gosod safonau, ac ymchwilio i arfer da/ardderchog Cynnull grwpiau ar draws sectorau
Arddangos (Exemplify)	Cynnwys (Engage)
Dyletswydd datblygu cynaliadwy newydd ar Lywodraeth Cymru	Ennyn dealltwriaeth a chefnogaeth lefel uchel i ddatblygu cynaliadwy Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a sefydliadau am ddatblygu cynaliadwy

68. Yn ein barn ni, er mwyn mynd i'r afael â hyn mewn ffordd fwy cyson, rhaid inni gryfhau'n dull o weithio at ddatblygu cynaliadwy. Credwn fod yn rhaid wrth fwy o ymdrech gan rai sefydliadau.

69. Credwn y bydd hyn yn gofyn am elfen o orfodi yn ein casgliad o fesurau annog. Yn ein barn ni, bydd rhoi dyletswydd statudol ar rai sefydliadau yn arwain at fwy o gysondeb; gallai gyflwyno lefel o atebolrwydd cyhoeddus ar ddatblygu cynaliadwy nad oes modd ei sicrhau ar hyn o bryd; a bydd yn rhoi ffocws ystyrlon i ddatblygu cynaliadwy er mwyn prysuro newid.

70. Rydym am wneud hyn mewn dwy ffordd.

²⁸ Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd. Y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Mawrth 2012. Daw'r ymgynghoriad i ben 25 Mai 2012.

- Yn gyntaf, rydym am wneud yn siŵr bod grym statudol yn cael ei roi i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol, i ni'n hunain ac i sefydliadau penodol yng Nghymru. Credwn mai ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau penodol hyn weithredu'n gyson â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yw'r ffordd orau o fynd â'r maen i'r wal yn hyn o beth. Rydym yn esbonio yn adran 6 sut carem weld hyn yn digwydd.
- Yn ail, rydym am neilltuo adnoddau'n fwy effeithiol yng Nghymru ar gyfer yr elfennau cynnwys a galluogi, gan na fydd pobl yn gallu cadw at ddyletswydd os nad ydynt yn deall ei phwmpas ac os nad ydynt yn gwybod sut i wneud hynny'n dda. Dyna pam rydym ni'n cynnig sefydlu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru. Yn ein barn ni, gall corff datblygu cynaliadwy newydd i Gymru adlewyrchu buddiannau ac anghenion Cymru'n well, gan chwarae rhan bwysig wrth inni brysuro'r newid at gynaliadwyedd. Rydym yn esbonio yn adran 7 sut rôl y carem i'r corff newydd ei hysgwyddo.

Adran 6: Dyletswydd datblygu cynaliadwy newydd

71. Amcan y polisi ar osod dyletswydd statudol yw gorfodi sefydliadau penodol i weithredu mewn ffordd gyson â datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol.

Methodoleg

72. Rydym ni wedi:

- ymgynghori'n ffurfiol yn fuan yn y broses i fwydo ein gwaith isod;
- cyfeirio at y prif ganlyniadau datblygu cynaliadwy sydd wedi'u nodi yn ein cynllun datblygu cynaliadwy, er mwyn rhoi cyd-destun²⁹;
- wedi nodi nifer o faterion i hybu ffordd datblygu cynaliadwy o feddwl, sydd wedi'u cysylltu yn gyntaf ag *ymddygiad* (gweler adran 2) ac yn ail, ag *amcanion* (sy'n adlewyrchu'r canlyniadau hirdymor rydyn ni'n eu disgrifio yn adran 2). Mae'r rhain yn ffyrdd gwahanol o wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol. Yn yr adran hon, rydyn ni'n cyfeirio at y gwahanol faterion hyn fel ffactorau datblygu cynaliadwy;
- edrych ar yr ymddygiadau y byddem yn disgwyl i sefydliadau eu harfer pe bai ffordd datblygu cynaliadwy o feddwl yn dylanwadu ar bopeth y byddai'r sector, trwy'i gilydd, yn ei wneud;
- clustnodi nifer o ffyrdd i sicrhau bod y sector cyhoeddus yn dangos yr ymddygiad neu'r amcanion angenrheidiol, ac asesu'r ffyrdd hyn ar sail set o ffactorau yr oeddem ni'n credu eu bod yn hanfodol i gynhyrchu opsiynau polisi cadarn ar gyfer y Bil.

73. Nid oedd creu deddfwriaeth fyddai'n cynnwys yn unig ddyletswydd lefel uchel, fel dyletswydd gyffredinol i *roi ystyriaeth* i ddatblygu cynaliadwy, yn apelio atom. Nid hon yw'r math o ffordd eang a fydd yn ein barn ni'n esgor ar y newid gweladwy sydd ei angen arnom yn y tymor byr a chanolig.

74. Rydym am wneud yn siŵr bod sefydliadau'n atebol am eu gweithredoedd, ond nid ydym am gael system sy'n gosod disgwyliadau afresymol ar benderfynwyr. Rydym am weld system sy'n meithrin cysondeb o fewn a rhwng sefydliadau, cyn belled nad yw'n tagu arloesedd nac yn rhwystro mentro rhesymol.

75. Am yr un rheswm nid ydym am ein gweld yn dilyn trywydd deddfwriaethol sy'n mynnu bod pob penderfyniad ar bob lefel yn cael ei wneud yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Gallai rhoi'r fath faich ar sefydliadau esgor ar oblygiadau mawr o ran adnoddau nad ydym yn credu bod cyfiawnhad amdanynt ar hyn o bryd o'i gymharu â'r dewis a gynigiwn isod.

76. Yn ein barn ni, er mwyn prysuro'r newid at lefel fydd yn arwain at newid gweladwy'n gynt, mae angen inni dargedu'r ddyletswydd fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar ymddygiad sefydliadau.

²⁹ Mae'r canlyniadau datblygu cynaliadwy wedi'u cynnwys yn ein cynllun datblygu cynaliadwy, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

77. Arweiniodd ein hasesiad at ddewis dull o weithredu a fydd yn ein barn ni yn pennu'r lefel benderfynu briodol a ddylai ysgwyddo ymrwymiad. Yr un pryd, mae'n gadael lefel synhwyrol o ddisgresiwn yn nwylo sefydliadau unigol iddynt benderfynu sut y dylent gydymffurfio.

Y dull o weithredu y carwn ei fabwysiadu

78. Bydd y math o ddyletswydd y carwn ei mabwysiadu yn:

- canolbwyntio ar y penderfyniadau lefel uwch sy'n cael y dylanwad mwyaf ar ymddygiad sefydliad;
- bod y ffactorau datblygu cynaliadwy'n dylanwadu ar y penderfyniadau hynny mewn rhyw ffordd;
- rhoi'r rhyddid a'r hyblygrwydd i sefydliadau allu ymateb yn bositif i'r ddyletswydd, mewn ffordd a fydd yn ateb gofynion y bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu;
- sicrhau bod sefydliadau'n agored ac yn dryloyw ynghylch sut y mae ffactorau datblygu cynaliadwy wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau.

Ffactorau datblygu cynaliadwy

Er mwyn hybu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol, rydyn ni'n meddwl y dylai fod yn ofynnol i gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sicrhau bod ffactorau datblygu cynaliadwy yn dylanwadu ar eu penderfyniadau lefel uchel. Rydyn ni wedi nodi gwahanol faterion rydyn ni'n credu sy'n berthnasol i ffordd datblygu cynaliadwy o feddwl ac wedi rhoi'r enw **ffactorau datblygu cynaliadwy** i'r materion hyn. Rydyn ni wedi nodi'r ffactorau datblygu cynaliadwy ar sail ymddygiadau, a ffactorau datblygu cynaliadwy ar sail amcanion.

Isod rydyn ni'n nodi opsiynau gwahanol i ystyried sut gellid defnyddio ffactorau datblygu cynaliadwy i ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uchel:

- Defnyddio ffactorau sy'n adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy;
- Defnyddio ffactorau sy'n adlewyrchu ymddygiadau datblygu cynaliadwy;
- Defnyddio cyfuniad o ymddygiadau ac amcanion datblygu cynaliadwy;
- Defnyddio cynnig datblygu cynaliadwy sengl.

79. Nid ydym wedi penderfynu ar y ffordd fwyaf addas i ddal "ffactorau datblygu cynaliadwy"; ac nid ydym wedi penderfynu chwaith pa mor bell y dylai ffactorau datblygu cynaliadwy ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uwch. Croesawn eich sylwadau ar y ddau bwynt. Rydym wedi clustnodi nifer o opsiynau a fyddai'n gyson â'r ffordd y carwn ei dilyn ac fe'u hystyrir ym mharagraffau 81 i 100 isod. Yn gyntaf,

gadewch inni edrych ar y penderfyniadau lefel uwch y dylai'r ddyletswydd, yn ein barn ni, ymwneud â nhw.

Penderfyniadau lefel uwch

80. Wrth sôn am benderfyniadau lefel uwch, rydym yn golygu'r penderfyniadau sy'n cael eu mabwysiadu gan y sefydliad sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau, yn neilltuo adnoddau, yn prynu gwasanaethau, yn rhoi cymorth ariannol ac yn rheoli ei ystad. Mewn llawer o sefydliadau, ymdrinnir â'r penderfyniadau hynny mewn cynlluniau, polisïau neu raglenni sy'n cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan fwrdd neu aelodau'r sefydliad; mewn cyrff eraill, efallai dydyn nhw ddim. Yn eu hanfod, mae'r penderfyniadau lefel uwch hyn yn ymgnewdoli'r dewisiadau y mae sefydliadau'n eu gwneud ynghylch sut i ddarparu gwasanaethau a defnyddio arian y cyhoedd lle bo ganddynt ddisgresiwn i wneud hynny.

81. Rydym yn cydnabod bod llawer iawn o benderfyniadau lefel uwch yn cael eu hystyried a'u gwneud o fewn sefydliadau ac rydym yn awyddus i'r ddyletswydd effeithio yn unig ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad penderfynu. Yn ein barn ni, y rheini ar hyn o bryd yw:

- **strategaethau tymor hwy:** eu mabwysiadu i arwain ymddygiad sefydliad am gyfnod o fwy na blwyddyn³⁰;
- **cynlluniau blynyddol** – fel cynlluniau gweithredol blynyddol³¹;
- **polisïau cyffredinol neu bynciol** sy'n pennu sut mae sefydliad yn darparu ei wasanaethau neu'n defnyddio arian cyhoeddus³² neu sy'n pennu sut mae eraill yn darparu gwasanaethau ar ei ran.

82. Bydd cyfyngiadau cyfreithiol cyfredol yn cyfyngu ar faint o ddisgresiwn sydd gan sefydliad i benderfynu ar ei ffordd ei hun o ddarparu gwasanaethau a gwario arian cyhoeddus. Lle mae'r cyfyngiadau hyn yn deillio o gyfraith Ewropeaidd, rhyngwladol neu hawliau dynol, efallai y bydd llai o le am ddyletswydd datblygu cynaliadwy sy'n cael ei gosod yn ddomestig i effeithio ar y ffordd y gwneir y penderfyniadau lefel uwch hyn; mae caffael yn enghraifft dda.

83. O dan gyfraith Ewropeaidd mae'n rhaid i awdurdodau cyfraith gyhoeddus wahodd tendrau ar gyfer dyfarnu contractau penodol. Os bydd dyletswydd ar sefydliad yn y dyfodol i ystyried ffactorau datblygu cynaliadwy wrth benderfynu sut i gaffael yn gyffredinol, ni allai'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy roi'r hawl i'r sefydliad anwybyddu dyletswydd yr UE i wahodd tendrau ar gyfer mathau perthnasol o contractau.

³⁰ Er enghraifft, lansiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei strategaeth 5 mlynedd yn 2010, sy'n gosod allan ei uchelgais, ei bwrpas, ei werthoedd a'i amcanion strategol. Mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru strategaeth gorfforaethol 3 blynedd sy'n gosod allan ei weledigaeth a'i dargedau ar gyfer addysg uwch yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2013.

³¹ Er enghraifft, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyhoeddi ei gynllun gweithredol 2011/12, gan droi'r weledigaeth gafodd ei disgrifio yn ei gynllun corfforaethol ar gyfer 2008-12 yn weithgarwch ymarferol ar gyfer y flwyddyn honno.

³² Er enghraifft, mae Prifysgol Bangor wedi mabwysiadu strategaeth gaffael ar gyfer y cyfnod 2009-2014.

84. Ar y llaw arall, lle mae cyfyngiadau cyfreithiol cyfredol yn deillio o bolisi domestig yn unig, gellid defnyddio Deddf y Cynulliad mewn egwyddor i godi'r cyfyngiadau hynny.

85. Yn gyffredinol, y penderfyniadau lefel uwch rydyn ni'n eu nodi uchod yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o ymgorffori gweledigaeth, gwerthoedd a ffyrdd sefydliad o weithio. Bydd hyn yn cynnwys polisiau lle mae prif weithredwyr, arweinwyr, cyfarwyddwyr ac aelodau'n cyfrannu at y gwaith o'u llunio a chytuno arnyn nhw. Mae arweinyddiaeth yn allweddol o ran hybu datblygu cynaliadwy mewn sefydliadau a bydd ddyletswydd sy'n gymwys i bolisiau ar y lefel hon yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol.

86. Yn rhesymegol, o'i gwneud yn ofynnol i ffactorau datblygu cynaliadwy ddylanwadu ar y penderfyniadau mwyaf dylanwadol mewn sefydliad, dylid sicrhau bod yr holl benderfyniadau y mae'r penderfyniadau lefel uwch hynny yn dylanwadu arnyn nhw yn cyd-fynd â ffactorau datblygu cynaliadwy. Fel hyn, mae modd mwynhau manteision cymhwyso'r ddyletswydd i benderfyniadau unigol heb y beichiau a allai fod ynghlwm â gweithio fel hyn.

87. Gallai'r gofyniad i gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy amharu ar rai penderfyniadau lefel uwch y mae sefydliadau'n eu gwneud sy'n gofyn am feddwl annibynnol. Ar hyn o bryd rydyn ni'n credu y byddai'r penderfyniadau hyn yn cynnwys dyfarniadau clinigol, rhyddid academiaidd ac efallai'r rheini sy'n ymwneud â'r rôl eiriolwr sydd gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Efallai bod rhai eraill.

88. Mae hefyd angen i ni ystyried cyllidebau lefel uchel ar gyfer sefydliadau. Rydyn ni'n nodi uchod y byddai penderfyniadau lefel uwch yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â dyrannu adnoddau. Mewn egwyddor byddai hyn yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i feysydd gwasanaeth penodol. Mae'r broses o lunio cynigion cyllideb yn aml yn cael ei rhagnodi drwy ddyletswyddau cyfreithiol cyfredol ac weithiau canllawiau manwl. Efallai bod y rheini sy'n gyfrifol am gynnig a mabwysiadu cynlluniau o'r fath yn atebol i etholwyr, bwrdd, cyrff statudol eraill, Gweinidogion Cymru neu'r Cynulliad. Bydd y cynlluniau hyn yn cael dylanwad allweddol ar y ffordd y mae sefydliad yn ymateb i heriau datblygu cynaliadwy. Mae angen i ni ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng y ddyletswydd arfaethedig a chynigion cyllideb lefel uwch sefydliad.

Cw.4 Ydyn ni wedi nodi'r lefel fwyaf priodol o benderfyniadau sefydliadol ar gyfer cymhwyso'r ddyletswydd? Esboniwch.

Cw.5 A fyddai perygl yn hyn o gynnwys rhai penderfyniadau na ddylai fod yn berthnasol o dan y ddyletswydd? Beth fyddai'r rhain?

Cw.6 A oes penderfyniadau sydd heb eu cynnwys a ddylai fod yn berthnasol o dan y ddyletswydd? Beth fyddai'r rhain?

Cw.7 A ddylem ni gynnwys penderfyniadau sy'n rheoli gweithrediadau mewnol sefydliad³³? Os felly, pa weithrediadau mewnol y dylid eu cynnwys?

³³ Er enghraifft, rheoli ystadau

Cw.8 A ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol i gynigion cyllideb? Esboniwrch.

Ffactorau datblygu cynaliadwy

89. Mae penderfynu pa agweddau ar ddatblygu cynaliadwy sydd fwyaf priodol i'w dynodi'n "ffactorau datblygu cynaliadwy" yn hanfodol i lwyddiant y ffordd rydyn ni am weithio. Mae perygl, o'i gwneud yn ofynnol i bob penderfyniad lefel uwch gael ei lywio gan ffactorau nad ydynt eu hunain yn gyfan gwbl wrth wraidd datblygu cynaliadwy, y caiff y sector cyhoeddus ei arwain yn y cyfeiriad anghywir. Mae nifer o ffyrdd i ni ymdrin â hyn.

Ffactorau sy'n adlewyrchu ymddygiad datblygu cynaliadwy

90. Wrth edrych ar y ffordd y byddem yn disgwyl i'r sector cyhoeddus weithredu pe bai ffordd datblygu cynaliadwy o feddwl yn dylanwadu ar bopeth rydym yn ei wneud, nodwyd yr ymddygiadau canlynol fel rhai allweddol:

- **Meddwl yn y tymor hir:** sicrhau mwy o bwyslais ar ganlyniadau tymor hir, gan seilio penderfyniadau ar effeithiolrwydd o ran cost dros y tymor hwy;
- **Integreiddio:** mae tystiolaeth am yr effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach a thymor hwy sy'n debygol yn sgil penderfyniadau yn cefnogi'r broses o wneud y penderfyniadau hynny;
- **Gweithio ar draws ffiniau sefydliadol:** mabwysiadu barn ehangach, gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau sefydliadol;
- **Canolbwyntio ar atal:** nodi ymyriadau hanfodol cynnar sy'n sicrhau arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd tymor hir yn y dyfodol;
- **Ymgysylltu:** cyfathrebu â rhanddeiliaid y bydd penderfyniadau'n effeithio arnyn nhw.

91. Dyma'r math o ymddygiad rydyn ni am ei annog. Un ffordd o wneud hyn yng nghyd-destun y ffordd rydyn ni am weithio yw drwy ddynodi'r ymddygiadau allweddol hyn fel y ffactorau datblygu cynaliadwy a ddylai ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uwch mewn sefydliadau. Rydyn ni'n credu y byddai mabwysiadu'r ymddygiadau hyn yn hybu datblygu cynaliadwy mewn ffordd sy'n cyd-fynd â 5 egwyddor datblygu cynaliadwy fframwaith y DU³⁴ a'r egwyddorion rydyn ni'n eu gosod yn ein cynllun datblygu cynaliadwy³⁵.

Ffactorau sy'n adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy

92. Gallem ni fabwysiadu ffordd wahanol o weithio, gan ddynodi'r amcanion sydd wrth wraidd datblygu cynaliadwy fel y "ffactorau datblygu cynaliadwy y mae'n rhaid

³⁴ 5 egwyddor y DU yw byw o fewn terfynau'r amgylchedd; sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn; sicrhau economi gynaliadwy; hybu llywodraeth dda; a defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn modd cyfrifol.

³⁵ Yr egwyddorion y cyfeirir atynt yn Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yw: cynnwys; integreiddio; lleihau'n hôl-troed; costau a manteision llawn; egwyddor ragofalus; y llygrwr sy'n talu; egwyddor agosatrwydd; ac adlewyrchu natur unigryw.

iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uwch". O'r canlyniadau datblygu cynaliadwy hirdymor sydd wedi'u nodi yn adran 2, rydyn ni'n teimlo bod yr amcanion hyn yn eu hanfod yn cynnwys y canlynol; efallai bod mwy ohonyn nhw, neu efallai bod modd eu cynnwys o fewn eraill:

- dylid gwella lles pobl a chymunedau;
- dylid hybu cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb i bawb;
- dylid hybu economi ffyniannus;
- dylid cadw at derfynau amgylcheddol;
- dylid hybu ecosystemau iach sy'n gweithio;
- dylid cryfhau treftadaeth ddiwylliannol;
- dylid galluogi byw'n iach;
- dylid cydnabod buddiannau cenedlaethau'r dyfodol;
- dylid cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

93. Pe byddem yn mynd i'r cyfeiriad hwn, efallai y byddem am roi enghreifftiau ynghylch pryd caiff pob un o'r ffactorau uchod eu cyflawni. Felly, er enghraifft, efallai y byddem am ddweud rhywbeth am ystyr "lles", neu roi enghreifftiau o wella lles pobl neu hybu cyfiawnder cymdeithasol ac ati. Hefyd byddem am sicrhau ffordd integredig o hybu'r materion hyn o'u hystyried yn eu cyfanrwydd ar draws holl gynlluniau a pholisïau sefydliad. Ni fyddem am i sefydliad ganolbwyntio ar un neu ddau fater yn unig, na newid y ffocws rhwng materion o flwyddyn i flwyddyn.

Cyfuno ymddygiadau ac amcanion datblygu cynaliadwy

94. Gallem gyfuno'r ymddygiadau a'r amcanion er mwyn gwneud y canlynol:

- dynodi'r ymddygiadau fel y ffactorau datblygu cynaliadwy y mae'n rhaid iddyn nhw lywio penderfyniadau lefel uwch;
- ar yr un pryd ei gwneud yn ofynnol bod y penderfyniadau hynny yn rhoi sylw arbennig mewn rhyw ffordd i'r amcanion datblygu cynaliadwy.

95. Pe byddem yn gwneud hyn, un posibilrwydd fyddai'i gwneud yn ofynnol i ddatblygu penderfyniadau lefel uwch mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag ymddygiadau datblygu cynaliadwy a hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r penderfyniadau terfynol ddangos eu heffaith ar amcanion datblygu cynaliadwy.

96. Rydyn ni'n croesawu safbwyntiau ynghylch a fyddai'n ddefnyddiol cyfuno dyletswydd ar sail ymddygiadau ac amcanion, neu a fyddai hyn yn rhy gymhleth.

Egwyddor datblygu cynaliadwy sengl

97. Posibilrwydd arall yw cyflwyno un cynnig fel "yr egwyddor datblygu cynaliadwy" y mae'n rhaid iddi lywio penderfyniadau lefel uwch. Pe byddwn yn mabwysiadu'r model hwn, gallai'r egwyddor fod fel a ganlyn:

- Dylid gwella lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

98. Rydyn ni'n anelu at yr un amcan, waeth ym mha ffordd y byddwn yn diffinio'r ffactorau datblygu cynaliadwy. Felly, bwriad cynnig sengl yn ôl ei natur fyddai crynhoi'r ystod o ffactorau datblygu cynaliadwy sydd heb eu mynegi hyd yn hyn.

99. Am y rheswm hwn, rydyn ni'n credu pe byddem yn mynd i gyfeiriad egwyddor datblygu cynaliadwy sengl y byddai angen i ni fynd ymhellach a rhoi enghreifftiau o amgylchiadau lle caiff yr egwyddor ei chyflawni, mewn ffordd debyg i'r hyn a amlinellir o dan y model amcanion datblygu cynaliadwy uchod.

Faint o ddylanwad y dylai ffactorau datblygu cynaliadwy ei gael ar benderfyniadau lefel uwch

100. Rydyn ni'n awyddus i ddatblygu cynigion a fydd yn sbarduno ymddygiadau datblygu cynaliadwy yn y tymor byr. Dyna pam mai'n barn ni ar hyn o bryd yw y dylai fod yn ofynnol i benderfyniadau lefel uwch wneud mwy na dim ond *ystyried* egwyddorion datblygu cynaliadwy.

101. Rydyn ni'n meddwl y bydd faint o ddylanwad sy'n briodol yn dibynnu ar sut byddwn ni'n diffinio "ffactorau datblygu cynaliadwy".

102. Os byddwn ni'n mynd i gyfeiriad *ffactorau ymddygiad*, efallai y bydd yn briodol ei gwneud yn ofynnol i wneud penderfyniadau lefel uwch mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r ffactorau hyn, neu i sylwedd y penderfyniadau'u hunain adlewyrchu ffactorau datblygu cynaliadwy.

103. Ar y llaw arall, os byddwn yn penderfynu defnyddio *amcanion* i ddiffinio ffactorau datblygu cynaliadwy, efallai y bydd yn anymarferol ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau lefel uwch fod yn gyson â'r ffactorau hynny. Gallai hyn fod oherwydd bod y ffactorau hyn yn gwrthdaro â'i gilydd mewn achos penodol, neu efallai nad yw'n realistig cynnwys rhai ffactorau mewn rhai penderfyniadau lefel uchel.

104. Nid ydym am ymrwymo cyrff sector cyhoeddus mewn unrhyw ffordd sy'n amharu ar eu gallu i sicrhau'r canlyniadau datblygu cynaliadwy gorau yn yr amgylchiadau penodol y maen nhw'n eu hwynebu, ac rydyn ni'n cydnabod bod hyn yn golygu bod yn rhaid i sefydliadau fod yn ddigon hyblyg i roi mwy o bwyslais ar rai ffactorau datblygu cynaliadwy nac eraill os bydd rhaid.

105. Un peth rydyn ni'n ei wybod yw na fydd y ddyletswydd ar y sector cyhoeddus yn sicrhau'r canlyniad dymunol os ydyn ni'n caniatáu i benderfyniadau lefel uchel fod yn anghyson â ffactorau datblygu cynaliadwy, waeth sut maen nhw'n cael eu diffinio. Rydyn ni'n disgwyl, drwy gydymffurfio â'r ddyletswydd, y bydd cynlluniau, polisïau, rhaglenni a phenderfyniadau tywys tebyg gan sefydliadau yn dylanwadu ar eu penderfyniadau o ddydd i ddydd mewn ffordd sy'n adlewyrchu ystyriaethau datblygu cynaliadwy.

106. Os bydd sefydliad yn mynd yn groes i'r ddyletswydd, bydd yn atebol yn yr un ffordd ag y mae ar hyn o bryd os yw'n torri dyletswydd statudol.

107. Bydd yn haws i rai sefydliadau wynebu'r her hon nag eraill. Efallai y bydd yn cymryd mwy o amser i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau lefel uwch. Gan gofio hyn, efallai y bydd yn synhwyrol cynnig dyddiad i bob penderfyniad lefel uchel gydymffurfio â'r ddyletswydd a byddem yn croesawu'ch safbwyntiau ar hyn.

108. Rydym yn bwriadu i'r corff datblygu cynaliadwy newydd gynnig cymorth i'r sefydliadu hyn o ran sut maen nhw'n adolygu'u penderfyniadau lefel uchel ar hyn o bryd ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol.

Cyfarwyddyd

109. Rydyn ni'n cydnabod, pan fydd y ddyletswydd hon yn dod i rym, efallai y bydd angen cyfarwyddyd i'w chefnogi. Mae angen i ni ystyried y mater hwn ymhellach wrth i ni ddatblygu'n cynigion deddfwriaethol. Gallai Llywodraeth Cymru neu'r corff datblygu cynaliadwy newydd gyhoeddi cyfarwyddyd. Byddem yn croesawu'ch safbwyntiau ar hyn.

Cwestiynau ynghylch yr ymddygiadau

Cw.9 A yw'r holl ymddygiadau rydyn ni'n eu nodi yn hanfodol i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu syniadau datblygu cynaliadwy? Esboniwch.

Cw.10 A oes ymddygiadau hanfodol nad ydyn ni wedi'u nodi? Esboniwch.

Cw.11 Beth yw manteision ac anfanteision dynodi ymddygiadau fel y ffactorau datblygu cynaliadwy y mae'n rhaid iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uchel?

Cw.12 Faint o ddylanwad ddylai ymddygiadau datblygu cynaliadwy ei gael ar benderfyniadau lefel uchel – er enghraifft, a ddylai'r penderfyniadau hynny fod yn gyfreithlon os ydyn nhw'n cael eu gwneud mewn ffordd sydd:

- yn cyd-fynd ag un o'r ymddygiadau, rhai ohonyn nhw neu bob un;
- yn adlewyrchu'r ymddygiadau'n fras;
- yn anghyson â'r ymddygiadau
- a oes opsiynau eraill?

Cwestiynau ynghylch yr amcanion

Cw.13 A oes amcanion datblygu cynaliadwy nad ydyn ni wedi'u nodi uchod?

Cw.14 Beth yw manteision ac anfanteision dynodi amcanion cynaliadwy fel y ffactorau y mae'n rhaid iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uwch?

Cw.15 Faint o ddylanwad ddylai'r amcanion ei gael ar benderfyniadau lefel uwch – er enghraifft, a ddylai'r penderfyniadau hynny fod yn gyfreithlon:

- dim ond os ydyn nhw'n cyfrannu'n weithredol at un neu fwy o'r amcanion hynny;
- os nad ydyn nhw'n amharu ar unrhyw un o'r amcanion;
- hyd yn oed os ydyn nhw'n amharu ar rai o'r amcanion hynny, cyn belled â'u bod yn hybu eraill yn weithredol
- a oes opsiynau eraill?

Cwestiwn ynghylch cyfuno'r ddau

Cw.16 Beth yw manteision ac anfanteision seilio dyletswydd ar ymddygiadau datblygu cynaliadwy ac amcanion datblygu cynaliadwy?

Cwestiwn ynghylch y cynnig datblygu cynaliadwy sengl

Cw.17 Beth yw'ch safbwyntiau ar seilio dyletswydd ar gynnig datblygu cynaliadwy sengl?

Cwestiwn ynghylch yr amser y bydd ei angen ar sefydliadau i gydymffurfio â'r ddyletswydd

Cw.18 Faint o amser y dylid ei roi i sefydliadau wneud y newidiadau hyn?

Cwestiwn ynghylch rhoi cyfarwyddyd

Cw.19 A fyddai'n ddefnyddiol cyhoeddi canllawiau ffurfiol i sefydliadau y mae'r ddyletswydd newydd yn berthnasol iddyn nhw?

Cw.20 A ddylai unrhyw gyfarwyddyd o'r fath gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru neu'r corff datblygu cynaliadwy newydd?

Ysgafnhau'r baich statudol ar gyrff cyhoeddus

110. O ystyried y ffordd fras o weithio rydyn ni'n ei chynnig ar gyfer y ddyletswydd, rydyn ni'n credu'i bod yn synhwyrol ystyried a oes modd dileu neu symleiddio dyletswyddau a gofynion statudol sydd ar gyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

111. Mae hyn yn cefnogi'n hamcan o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy gwell i bobl Cymru. Mae hyn yn un o themâu mawr diwygio'r sector cyhoeddus, a bydd yn caniatáu i fwy o'n hadnoddau gael eu defnyddio i wella lles pobl.

112. Drwy ddiwygio'r sector cyhoeddus, rydyn ni am:

- Wella cydweithredu ac ad-drefnu drwy gynllunio a chomisiynu ar y cyd, ymchwilio i orgyffwrdd rhwng sefydliadau, a chymell gweithio ar y cyd;
- Gwellu integreiddio drwy ddatblygu trefniadau newydd i gael gwared ar rwystrau artiffisial rhwng gwasanaethau a dinasyddion;

- Lleihau beichiau a chymhlethdod drwy adolygu a, lle bo angen, diddymu dyletswyddau a rheoliadau diangen.

Cw.21 A oes unrhyw ddyletswyddau statudol penodol y byddai'n briodol eu diddymu, yng ngoleuni'r dull gweithredu rydyn ni'n ei gynnig o dan y Bil Datblygu Cynaliadwy?

Cw.22 A oes rhwystrau cyfreithiol rhag darparu'n unol â'r ffactorau datblygu cynaliadwy rydyn ni wedi'u hamlinellu y gallai'r Bil Datblygu Cynaliadwy gael gwared arnyh nhw?

Tryloywder drwy gyflwyno adroddiadau

113. Rydyn ni'n credu y dylai sefydliadau fod yn dryloyw ac yn atebol yn y ffordd y maen nhw'n ymateb i'r ddyletswydd. Nid ydym yn teimlo y byddai'n ddefnydd da o adnoddau cyhoeddus gorfodi sefydliadau y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddyn nhw i lunio adroddiadau blynyddol ar wahân ar ddatblygu cynaliadwy. Yn hytrach, mae rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd sefydliadau'n golygu'i bod yn synhwyrol ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau nodi yn eu hadroddiad blynyddol sut mae penderfyniadau lefel uchel yn cydymffurfio â'r ddyletswydd³⁶. Rydyn ni am sicrhau cysondeb ar draws sefydliadau yn y ffordd mae'n nhw'n ymateb i hyn.

114. Byddai gwneud hyn yn cynnig tystiolaeth ddefnyddiol a allai lywio unrhyw adolygiadau o gynnydd tuag at ddatblygu cynaliadwy. Gallai hefyd gynnig tystiolaeth i lywio unrhyw archwiliadau datblygu cynaliadwy y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn eu cynnal (yn y bennod nesaf byddwn ni hefyd yn ystyried y rôl y gall yr Archwilydd Cyffredinol ei chwarae o ran craffu ar ddatblygu cynaliadwy).

Cw.23 A ddylai fod yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno adroddiad ar gydymffurfio â'r ddyletswydd drwy'r trefniadau adroddiad blynyddol presennol?

Y sefydliadau y gallai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt

115. Rydyn ni'n ystyried ar hyn o bryd i ba gyrff y dylai'r ddyletswydd newydd arfaethedig fod yn berthnasol.

116. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cynnig rhestr fras iawn o sefydliadau y gallai'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy arfaethedig fod yn berthnasol iddyn nhw. Dim ond rhestr ddangosol yw hon; mae tipyn o waith i'w wneud o hyd cyn gwneud penderfyniad ar yr union sefydliadau i'w cynnwys ac adnabod y penderfyniadau lefel uwch y gallai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw mewn gwahanol fathau o sefydliadau.

117. Mae rhai sefydliadau y mae dinasyddion o'r farn gyffredin eu bod yn rhan o'r sector cyhoeddus. Mewn gwirionedd, er eu bod yn gwario llawer o arian cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (er enghraifft ar ran awdurdodau lleol) efallai'u

³⁶ Mae'r Global Reporting Initiative yn dadlau dros un ffordd o lunio adroddiadau cynaliadwyedd. Gweler <https://www.globalreporting.org>

bod yn sefydliadau sector preifat. Yn yr achosion hyn, nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd angen i ni ystyried y mater hwn yn fanwl wrth i ni ddatblygu'n cynigion.

118. Mae gan rai sefydliadau rolau lle na fyddai'n briodol i'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy fod yn berthnasol i'w penderfyniadau lefel uchel ynghylch darparu gwasanaethau. Gallai'r rhain gynnwys Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Efallai bod eraill hefyd.

119. Byddwn ni'n ystyried y cwestiynau hyn yn ofalus ac rydyn ni'n croesawu'ch safbwyntiau ar y materion yn arbennig.

120. Yn fras iawn, rydyn ni'n credu bod y sefydliadau canlynol yn gwneud cyfraniad amlwg iawn at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl. Rydyn ni'n credu y byddai gwerth o ran ei gwneud yn ofynnol i rai neu bob un o benderfyniadau lefel uwch y sefydliadau hyn gael eu llywio gan ffactorau datblygu cynaliadwy:

- Llywodraeth Cymru;
- Awdurdodau Unedol Lleol yng Nghymru;
- Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Byrddau Iechyd Lleol;
- Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru;
- Y corff sengl newydd (sy'n cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru);
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Chwaraeon Cymru;
- Amgueddfa Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Cyngorau Tref a Chymuned.

121. Byddai'n synhwyrol cadw'r opsiwn i ychwanegu neu ddileu cyrff o'r rhestr honno o gyrff y mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn berthnasol iddyn nhw.

Cw.24 A oes sefydliadau ar y rhestr hon na ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw? Esboniwch.

Cw.25 A oes sefydliadau nad ydynt ar y rhestr hon y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw? Esboniwch.

Diffinio "datblygu cynaliadwy"

122. Un o'r materion rydyn ni'n ceisio safbwyntiau arnyn nhw yw a ddylid cynnig diffiniad cyfreithiol o "datblygu cynaliadwy".

123. Defnyddir y term "datblygu cynaliadwy" mewn nifer o ddeddfau sy'n berthnasol i Gymru ac nid oes un o'r cyfreithiau hyn yn diffinio ystyr y term. Gallai Deddf Cynulliad newid hyn drwy ddiffinio "datblygu cynaliadwy" a gwneud y diffiniad hwnnw'n berthnasol i'r deddfau yng Nghymru sy'n defnyddio'r term ar hyn o bryd (rhoddir rhai enghreifftiau isod).

124. Os caiff 'datblygu cynaliadwy' ei ddiffinio gan y gyfraith, gellid defnyddio'r diffiniad hwnnw hefyd mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol lle mae angen defnyddio'r term. Fel hyn, gallai diffiniad gynnig cysondeb a chydlyniant i gorff cynyddol o gyfraith datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac ymdrechion y sector cyhoeddus i gydymffurfio â'r gyfraith.

125. Mae anfanteision o wneud hyn. Y prif anfantaes yw'r cwestiwn ynghylch a fydd ein dealltwriaeth o ystyr "datblygu cynaliadwy" yn newid gydag amser. Pe bai Deddf Cynulliad yn diffinio'r term, efallai y byddai angen ailystyried y diffiniad hwnnw wrth i'n dealltwriaeth newid.

126. Enghreifftiau o ddeddfau sy'n defnyddio'r term "datblygu cynaliadwy" ar hyn o bryd:

- xx. Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004³⁷ sy'n ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol rhai cynlluniau a rhaglenni strategol gael eu hasesu cyn bod modd bwrw ymlaen â nhw. Mae un o'r meini prawf dros benderfynu a oes rhaid asesu cynllun neu raglen benodol yn ymwneud â pha mor berthnasol yw'r cynllun neu'r rhaglen ar gyfer integreiddio ystyriaethau amgylcheddol, yn enwedig gyda'r bwriad o hybu *datblygu cynaliadwy*;
- xxi. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n sefydlu system cynllunio cymunedol lle mae awdurdodau lleol yn nodi amcanion hirdymor ar gyfer eu hardal i gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig (ymysg pethau eraill);
- xxii. Mae Mesur 2009 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i wella'n barhaus y ffordd maen nhw'n gweithio, ac mae angen iddyn nhw roi sylw arbennig i'r angen i wella agweddau penodol ar eu perfformiad. Cynaliadwyedd yw un o'r agweddau hyn a chaiff gwella perfformiad o ran cynaliadwyedd ei ddiffinio fel darparu gwasanaethau neu ymgymryd â swyddogaethau eraill mewn ffordd sy'n cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy;
- xxiii. Mae nifer o ddyletswyddau ar Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 ynghylch pryd a sut y dylid ymgymryd â'u swyddogaethau ynghylch dŵr a charthffosiaeth. Cyflawni'u pwerau a'u dyletswyddau yn y ffordd orau i gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy yw un o nifer o'r rhwymedigaethau sydd wedi'u gosod.

³⁷ O.S. 2004 Rhif 1656 (W. 170).

127. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod beth yw'ch barn ar rinweddau diffinio “datblygu cynaliadwy”. Rydyn ni hefyd yn awyddus i wybod a ydych chi'n credu y byddai'n diffiniad presennol o “ddatblygu cynaliadwy” yn addas pe byddem yn cynnig diffiniad cyfreithiol. Dyma'n diffiniad:

Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau a gwella ansawdd bywyd ein cenedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n:

- hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau – gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r byd a diogelu ein treftadaeth ddiwylliannol.

Cw.26 A oes manteision neu anfanteision eraill ynghlwm â diffinio “datblygu cynaliadwy”, ac os felly beth ydyn nhw?

Cw.27 Pe byddem yn diffinio “datblygu cynaliadwy”, ydych chi'n meddwl y byddai'r diffiniad yn addas, a pham?

Adran 7: Corff Datblygu Cynaliadwy annibynnol

Pwrrpas

128. Pwrrpas yr adran hon yw amlinellu'n cynigion bras ar gyfer sefydlu corff datblygu cynaliadwy annibynnol. Rydyn ni hefyd yn amlinellu rhai o'r materion allweddol y byddwn ni'n eu hystyried wrth i ni ddatblygu'r cynigion hyn ymhellach.

Cefndir

129. Hyd at fis Mawrth 2011, y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy oedd cynghorydd Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy. Ei rôl oedd rhoi cyngor polisi, meithrin adnoddau a chynnal asesiadau annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru i helpu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i ni. Ar ôl cau'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, penodwyd Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn 2010 i wneud y canlynol, ymysg pethau eraill:

- cynnig arweiniad ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru;
- hybu datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol ym mhob sefydliad yng Nghymru;
- cynghori Llywodraeth Cymru ar bolisiâu a ffyrdd o hybu a gweithredu datblygu cynaliadwy.

130. Mae contract yn cefnogi'r Comisiynydd yn ei rôl, gyda Cynnal Cymru yn gyfrifol amdano ar hyn o bryd. Rôl Cynnal Cymru yw sbarduno a bod yn ffocws ar gyfer:

- cyfrannu dadansoddiad arbenigol a barn ar lawr gwlad i lywio a dylanwadu ar waith llunio a chynnal polisi yn Llywodraeth Cymru a chyrff eraill sy'n rhanddeiliaid;
- meithrin capasiti i gymryd camau ymarferol a fydd yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yn y llywodraeth, cymdeithas sifil a busnes.

131. Ym adran 5, nodwyd bylchau yn y ffordd rydyn ni'n hybu datblygu cynaliadwy'n gyffredinol. Mae'r bylchau'n ymwneud ag:

- *annog* sefydliadau penodol, drwy graffu priodol, i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol arfaethedig;
- *galluogi* sefydliadau penodol i ymgorffori datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol yng ngoleuni unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol a'u cynnwys yn y broses.

132. Rydyn ni'n meddwl bod modd mynd i'r afael â'r bylchau hyn drwy:

- sicrhau bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru rôl graffu mewn perthynas â datblygu cynaliadwy;
- sefydlu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru.

133. Mae'r cynigion hyn a'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy ill dau'n rhan o ffordd gydlynus o gryfhau ymddygiadau datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n bwysig felly'u bod yn cael eu datblygu ochr wrth ochr i annog newid mewn ymddygiad i gefnogi datblygu cynaliadwy.

Ein methodoleg

134. Rydyn ni wedi sefydlu ystod o feini prawf allweddol i helpu i bennu natur a math y corff datblygu cynaliadwy annibynnol. Nodwyd y materion canlynol fel rhai sy'n hanfodol wrth lunio cynigion polisi cadarn:

- **Effaith** – mae'n rhaid i bwrpas a rôl y corff gefnogi a meithrin canlyniadau datblygu cynaliadwy; mae'n rhaid i'w waith wneud cyfraniad mesuradwy at wella lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- **Effeithiolrwydd** – mae'n rhaid i'r corff newydd gynnig mwy o werth na'r hyn a fyddai ar gael fel arall; ni ddylai ddyblygu rôl sefydliadau eraill; mae'n rhaid iddo fod yn ddigon annibynnol ar y llywodraeth i feddu ar hygyrdd cenedlaethol; mae'n rhaid bod ganddo'r gallu a'r pwerau i'w alluogi i fod yn ganolfan arbenigedd datblygu cynaliadwy sy'n cael ei pharchu; mae'n rhaid iddo feddu ar y dyletswyddau angenrheidiol i'w wneud yn atebol am ei berfformiad;
- **Ennyn diddordeb, partneriaeth a chydweithredu** – mae'n rhaid bod gan y corff newydd y pwerau angenrheidiol i'w alluogi i weithio mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer ennyn diddordeb, partneriaeth a chydweithredu;
- **Cydweddiad strategol** – mae'n rhaid i'r corff newydd weithredu mewn ffordd sy'n symud yr agenda datblygu cynaliadwy yn ei flaen, gan gydweddu â'r ffordd ehangach rydyn ni'n hybu datblygu cynaliadwy;
- **Fforddiadwyedd** – mae'n rhaid bod rôl y corff newydd yn fforddiadwy yn realistig a bod modd ymgymryd â hi mewn ffordd sy'n effeithiol o ran cost.

135. Er mwyn cyrraedd y pwynt hwn, rydyn ni wedi ystyried nifer o drefniadau rhyngwladol i annog ymddygiadau datblygu cynaliadwy, ac rydyn ni wedi ystyried nifer o fodelau sefydliadol sy'n bodoli yng Nghymru.

Pwrpas

136. Mae'n rhaid i bwrpas cyffredinol y corff newydd gyd-fynd mewn ffordd synhwyrol â'n hamcanion polisi cyffredinol. Un ffordd o wneud hyn fyddai rhagnodi bod pwrpas y corff newydd yn cefnogi ac yn meithrin lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Cw.28 Beth ddylai'r pwrpas cyffredinol fod ar gyfer corff newydd?

137. Mae'r adran nesaf yn ystyried beth gallai rolau a swyddogaethau posibl y corff fod mewn perthynas â'r pwrpas cyffredinol hwn.

Swyddogaethau

138. Yn ein dogfen drafod ym mis Rhagfyr 2011, awgrymwyd tri model posibl ar gyfer corff datblygu cynaliadwy newydd o ran ei rôl a'i swyddogaethau bras:

- ombwdsmon yn gwasanaethu dinasyddion, gan orfodi hawliau a delio â gwaith achos penodol;
- corff yn canolbwyntio ar graffu a gwneud y sector cyhoeddus datganoledig yn atebol ym maes datblygu cynaliadwy;
- corff i gynghori a thywys sefydliadau y gallai'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy fod yn berthnasol iddynt.

139. Nid yw'r modelau hyn yn annibynnol ar ei gilydd ac maen nhw'n ffordd ddefnyddiol o feddwl am swyddogaeth cyffredinol y corff. Rydyn ni'n trafod pob un o'r rhain isod.

Model ombwdsmon/gwaith achos

140. O dan y model hwn, byddai'r corff yn eirioli ar ran cenedlaethau presennol a'r dyfodol yn gyffredinol, ac mewn ymateb i bolisiau a chynigion penodol y sector cyhoeddus. Byddai hefyd yn delio ag achosion unigol fyddai'n cael eu cyfeirio gan ddinasyddion sy'n pryderu ynghylch sut mae cyrff yn cyflawni'u dyletswydd datblygu cynaliadwy.

141. Mae nifer o sefydliadau o'r math hwn yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd, fel y Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn gyffredinol, rôl y mathau hyn o sefydliadau hyn yw eirioli dros achos penodol ac ymchwilio i gwynion unigol yn erbyn sefydliadau sector cyhoeddus.

142. Rydyn ni'n credu mai rôl newydd y corff newydd fydd eirioli dros ddatblygu cynaliadwy, ond byddai rôl fel dyfarnydd ar gwynion unigol yn erbyn sefydliadau yn rhoi pwyslais amhriodol. Rydyn ni am i'r corff newydd weithio'n helaeth gyda'r sector cyhoeddus i annog ymddygiadau datblygu cynaliadwy. Rydyn ni'n credu mai'r ffordd orau o annog yr ymddiriedaeth a'r ewyllys da sydd ei angen yw drwy beidio â rhoi rôl ffurfiol i'r corff newydd ar ddyfarnu ar achosion o anghydfod am ymddygiad sefydliadol.

143. Nid ydym o'r farn bod angen mecanwaith benodol i ddatrys cwynion unigol ynghylch sefydliadau mewn perthynas â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Rydyn ni o'r farn bod y mecanweithiau presennol ar gyfer datrys achosion o anghydfod ynghylch ymddygiad yn y sector cyhoeddus yn ddigonol ac y byddai sefydlu gweithdrefn newydd i ddatrys anghydfod yn arwain at ddyblygu diangen a chostau anodd eu cyfiawnhau.

Model Craffu

144. O dan y model hwn, byddai corff yn canolbwyntio ar herio a chraffu mewn cysylltiad â chydymffurfiaeth â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy, er enghraifft:

- drwy adolygu cydymffurfiaeth ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, naill ai ar lefel sefydliadau penodol neu ar draws sefydliadau gwahanol sy'n gweithredu yn yr un maes gwasanaeth cyhoeddus;
- drwy ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau neu ddatblygiadau polisi penodol.

145. Rydyn ni o'r farn mewn egwyddor bod gan graffu rôl ddefnyddiol i'w chwarae o ran annog ffordd datblygu cynaliadwy o feddwl mewn sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

146. Rydyn ni wrthi'n ymgynghori³⁸ ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) arfaethedig i bennu trefniadau atebolrwydd, llywodraethu a throsolwg mwy effeithiol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i Swyddfa. Yn yr ymgynghoriad hwnnw, rydyn ni wedi gofyn am safbwyntiau ynghylch a ddylai fod dyletswydd benodol ar Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru i ymchwilio i ddatblygu cynaliadwy yn sector cyhoeddus Cymru, a ph'un a ddylid cynnwys dyletswydd o'r fath ym Mil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) neu'r Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig.

147. Nid ydym o blaid rhoi rôl i'r corff datblygu cynaliadwy newydd ar gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy, am y rhesymau a esboniwyd yn gynharach. Rydyn ni'n credu bod dadleuon cryf o blaid rhoi rôl ffurfiol i Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hynny o beth. Rydym o'r farn y byddai rôl statudol benodol i'r Archwilydd Cyffredinol o ran archwilio datblygu cynaliadwy yn cynnig tryloywder ac atebolrwydd o ran perfformiad y sefydliadau y mae'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn berthnasol iddyn nhw.

148. Rydyn ni'n credu ei bod yn synhwyrol i gydbblethu archwiliadau o ymddygiadau datblygu cynaliadwy â'r mecanweithiau presennol ar gyfer archwilio perfformiad yn y sector cyhoeddus. Rydyn ni o'r farn mai'r Archwilydd Cyffredinol sydd yn y safle gorau i gynnal archwiliadau ynghylch datblygu cynaliadwy yn y sector cyhoeddus.

149. Rydyn ni hefyd yn credu y byddai hyn:

- yn cynnig cryn sicrwydd i rôl yr Archwilydd Cyffredinol o ran datblygu cynaliadwy drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy;
- yn arwydd bod datblygu cynaliadwy yn fater i Arweinwyr a Phrif Weithredwyr yr holl sefydliadau sy'n destun archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol ei ystyried;
- yn cyd-fynd â sefyllfaoedd tebyg rhyngwladol ac yn cynrychioli syniadau ac arferion blaengar rhyngwladol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i Archwilydd

³⁸ Fersiwn ddrafft Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 15 Mai 2012

Cyffredinol Canada benodi comisiynydd i fonitro datblygu cynaliadwy ac adrodd ar gynnydd adrannau'r llywodraeth tuag at ddatblygu cynaliadwy.

150. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), caiff penderfyniad ei wneud ynghylch a ddylid sefydlu rôl ffurfiol ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol o ran archwilio datblygu cynaliadwy o dan y Bil hwnnw neu o dan y Bil Datblygu Cynaliadwy. Os yw'r penderfyniad i wneud hynny o dan Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), byddwn ni'n ystyried a oes angen addasu'r rôl honno wrth gadarnhau'r cynigion ar gyfer y ddyletswydd sector cyhoeddus.

Model Cyngor a Chyfarwyddyd Arbenigol

151. O dan y model hwn, byddai corff yn canolbwyntio ar roi cyngor, cyfarwyddyd a chymorth ar ddatblygu cynaliadwy. Gellid gwneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys darparu cymorth wedi'i deilwra, lledaenu astudiaethau achos, cynnal ymchwil a llunio adroddiadau cynnydd ar faterion lles.

152. Gallai corff o'r fath ganolbwyntio'n bennaf ar sefydliadau yng Nghymru, yn benodol y rheini y mae unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol yn berthnasol iddyn nhw. Byddai hyn yn adeiladu ar rôl y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a fu'n bennaf yn rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru. Gallai cyngor y corff gynnwys helpu sefydliadau i ystyried y cysylltiadau rhwng eu hymddygiadau datblygu cynaliadwy, y canlyniadau a gyflawnir a'u cyfraniad tuag at ddangosyddion datblygu cynaliadwy.

153. Fel arall, gallai corff newydd ganolbwyntio ar ystod ehangach o sefydliadau yng Nghymru o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

154. Ynghyd â chanolbwyntio'n benodol ar sefydliadau y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddyn nhw, gallai rôl y corff newydd ymestyn y tu hwnt i hyn. Er mwyn gweithio i sicrhau'r lles gorau i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol bydd angen meddylfryd sy'n cwmpasu pob sector, a bydd angen i'r corff newydd fanteisio ar y cyfleoedd i weithio mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r cyfleoedd am bartneriaeth a chydweithredu ar draws sectorau.

155. Rydyn ni'n credu bod achos cryf dros sefydlu corff i gynnig cymorth, cyngor a chyfarwyddyd i'r ystod o gyrff y byddai unrhyw ddyletswydd newydd yn berthnasol iddyn nhw. Rydyn ni hefyd yn credu'i bod yn bwysig sefydlu corff y gall holl elfennau sector cyhoeddus Cymru fanteisio ar ei arbenigedd a chyfeirio ato; corff sydd mor annibynnol ac arbenigol fel bod pob rhan o gymdeithas yn ymddiried ac yn teimlo hyder ynddo.

156. O fewn y model hwn, efallai y bydd modd i'r corff newydd fod yn "gyfaill beirniadol" i'r sefydliadau hynny y byddai'r ddyletswydd newydd yn berthnasol iddyn nhw. Gallai'r corff newydd herio sefydliadau'n fewnol, er enghraifft drwy holi p'un a yw cynlluniau neu bolisiau'r sefydliad yn cyd-fynd â ffactorau datblygu cynaliadwy.

Y Ffordd y Dylid Gweithio

157. Rydyn ni'n credu bod elfennau o'r holl fodelau uchod a allai fod yn addas ar gyfer y corff newydd. Rydyn ni'n credu y dylai'r corff eirioli dros ddatblygu cynaliadwy, gan hyrwyddo lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol mewn ffordd sy'n annog newid ymddygiad o fewn a thu hwnt i'r sector cyhoeddus datganoledig. Rydyn ni'n credu y dylai rôl y corff gynnwys llunio adroddiadau o bryd i'w gilydd ar les cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac rydyn ni'n credu bod achos dros rôl ffurfiol statudol mewn ymgynghoriadau ynghylch penderfyniadau penodol.

158. Rydyn ni o'r farn y dylai rôl y corff datblygu cynaliadwy newydd ganolbwyntio'n bennaf ar roi cyngor a chyfarwyddyd arbenigol mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a lles. Rydyn ni'n teimlo y dylai'r corff ganolbwyntio'n helaeth ar weithio gyda'r cyrff hynny y mae unrhyw ddyletswydd datblygu cynaliadwy'n berthnasol iddyn nhw. Gallai hyn herio'r sefydliadau hynny lle bo angen.

159. Rydyn ni'n credu y byddai cyfuno rôl o'r fath gyda'r rôl graffu a gynigir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ffordd rymus a chydlynus o annog ymddygiadau datblygu cynaliadwy.

Cw.29 Oes gennych chi farn ar sut dylai prif swyddogaethau'r corff newydd weithredu?

Corff statudol

160. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cymorth sefydliadol i ddatblygu'r agenda datblygu cynaliadwy drwy fecanweithiau anstatudol. Roedd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn gorff annibynnol oedd yn cael ei ariannu gan y Llywodraeth. Roedd yn cefnogi Llywodraeth Cymru drwy roi cyngor polisi, meithrin adnoddau a chynnal asesiadau annibynnol i helpu i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol ar gyfer y llywodraeth. Yn yr un modd, er bod swydd y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn benodiad cyhoeddus, nid yw ar y llyfrau statud.

161. Mae'r trefniadau hyn wedi'n galluogi i ymateb yn hyblyg i newid mewn amgylchiadau ac wedi gweithio'n dda. Rydyn ni'n argyhoeddedig mai dyma'r amser priodol i wneud y trefniadau ar gyfer arbenigedd, cyngor ac eirioli annibynnol yn fwy ffurfiol a phendant.

162. Os bydd y ddyletswydd datblygu cynaliadwy yn dod yn gyfraith, bydd yn rhwymo'r sefydliadau y mae'n berthnasol iddyn nhw am gyfnod amhenodol. Oherwydd y cysylltiad cynhenid rhwng y ddyletswydd a rôl y corff newydd, rydyn ni'n teimlo bod angen sicrwydd i bob sector o gymdeithas y bydd ffynhonnell annibynnol o gyngor a chymorth arbenigol ar gael o hyd i helpu'r sefydliadau hyn i fodloni'u rhwymedigaethau datblygu cynaliadwy.

163. Mae'r model anstatudol a ddefnyddir ar hyn o bryd i benodi'r Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy wedi gweithio'n dda iawn, ond oherwydd ei natur nid oes sicrwydd y byddai llywodraethau yn y dyfodol yn cadw'r rôl. Rydyn ni'n credu y bydd sector cyhoeddus Cymru'n gwneud cynnydd gwell a chynt drwy hybu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gyda chynghor, cymorth ac arbenigedd

annibynnol, ac rydyn ni'n teimlo'i bod yn rhy bwysig bod y cynnydd hwn yn digwydd ein bod ni'n gadael y cyfan i ffawd. Byddai sefydlu corff statudol i ymgymryd â'r rôl hon yn sicrhau bod angen i unrhyw lywodraeth yn y dyfodol wneud penderfyniad pendant i ofyn am ganiatâd y Cynulliad i ddiddymu'r corff, drwy fil y Cynulliad. Rydyn ni'n credu y byddai hyn yn dod â chryn sicrwydd i wydnwch y trefniadau.

164. Rydyn ni'n credu y bydd sefydlu'r corff drwy broses ddeddfwriaethol ddemocrataidd yn hybu mandad y corff ac yn rhoi arwyddocâd i'w gyngor a'i gyfarwyddyd.

Cw.30 Ydych chi'n credu y dylai unrhyw gorff gael ei sefydlu'n statudol?

Swyddogaethau penodol

165. Dyma'r swyddogaethau rydyn ni'n credu ddylai fod yn rhan o rôl y corff newydd:

- Dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau'i hun. Byddai hyn yn helpu i sicrhau atebolrwydd ar berfformiad y corff.
- Dyletswydd i lunio 'adroddiad lles' cyfnodol i esbonio sut gallai tueddiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol (fel sydd i'w gweld yn ein dangosyddion datblygu cynaliadwy er enghraifft), os na fyddan nhw'n cael eu hunioni, effeithio ar les hirdymor cenedlaethau'r dyfodol.
- Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gyrff rhoddir dyletswydd datblygu cynaliadwy arnynt i roi gwybod sut y maent yn gwneud eu dyletswydd. Gallai hyn eu helpu i gasglu tystiolaeth i gefnogi datblygiad 'adroddiad lles'. Pŵer i gomisiynu ymchwil i gefnogi'i brif bwrpas.
- Pŵer i gaffael gwasanaethau i gefnogi'i brif bwrpas, sef rhoi cyngor, cyfarwyddyd a chymorth ar ddatblygu cynaliadwy.
- Pwerau cyffredinol i gyflogi a thalu staff, dal eiddo, cytuno ar gontractau ac ati.

Cw.31 Ydych chi'n cytuno â'r swyddogaethau arfaethedig i sefydlu corff newydd yn statudol?

Cw. 32 A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried?

166. Gallai swyddogaethau posibl eraill y corff newydd gynnwys:

- Dyletswydd i adolygu ystod dangosyddion datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd, a rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r dangosyddion hyn. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cysylltiad clir rhwng gwaith y corff a chyflawni canlyniadau datblygu cynaliadwy.
- Pŵer i gynnal adolygiadau ar faterion neu themâu penodol sy'n gysylltiedig â dyletswydd datblygu cynaliadwy ar draws y sefydliadau y

mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddyn nhw drwyddi draw. Gallai adolygiadau o'r fath helpu i lywio cyfarwyddyd ac arfer da.

- Pŵer i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus ynghylch cael gwared ar rwystrau penodol i gynaliadwyedd.
- Rôl ffurfiol mewn ymgynghoriadau ynghylch datblygiadau neu bolisiau arwyddocaol. Byddai hyn yn golygu bod modd ystyried mwy o elfennau wrth wneud penderfyniadau o bwys.

Annibyniaeth ac atebolrwydd

167. Yn ogystal â chwestiynau ynghylch pwrpas, rolau a swyddogaethau corff newydd, bydd hefyd angen ystyried annibyniaeth ac atebolrwydd unrhyw gorff newydd. Rydyn ni'n credu y dylai unrhyw gorff fod yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mewn sefyllfa i gynnig cyngor arbenigol a chredadwy ynghylch rhoi unrhyw ddyletswydd datblygu cynaliadwy ar waith, yn ogystal â datblygu cynaliadwy a lles yn fwy cyffredinol. Dylai unrhyw gorff o'r fath weithredu mewn ffordd dryloyw a bod yn atebol am ei weithredoedd.

Cw.33 Oes gennych chi farn benodol ar annibyniaeth y corff newydd?

Cw.34 Oes gennych chi farn benodol am y trefniadau atebolrwydd ar gyfer y corff newydd?

Ffurf bosibl y corff newydd

168. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar bwrpas a swyddogaethau posibl y corff newydd. Bydd angen i ni ystyried materion maes o law ynghylch ffurf bosibl corff o'r fath. Rydyn ni'n credu bod angen eglurder ynghylch pwrpas a swyddogaethau'r corff newydd cyn bod modd i ni ymgynghori ar ei ffurf arfaethedig. Byddwn yn cynnwys cwestiynau ar ffurf y corff newydd yn ymgynghoriad y Papur Gwyn yn yr hydref.

Adran 8: Y ffordd y byddwn yn cynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

169. Wrth gyhoeddi'n Papur Gwyn ar y Bil Datblygu Cynaliadwy, byddwn ni hefyd yn cyhoeddi canlyniadau'r asesiad effaith. Bydd yr asesiad hwn:

yn broses barhaus i bwysu a mesur costau a manteision yr amryw ffyrdd i gyflawni'r amcan o wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol ar gyfer Llywodraeth Cymru a sefydliadau penodol yng Nghymru, a deall sgil-efeithiau cyflwyno'r Bil. Bydd yr asesiad hefyd yn ystyried y corff datblygu cynaliadwy annibynnol os mai bwriad y polisi fydd sefydlu corff o'r fath yn statudol;

- yn mireinio'r Bil drwy asesu a chyflwyno'r costau a'r manteision tebygol, a'r risgiau cysylltiedig, o gyflwyno'r Bil i sefydliadau sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector, ac i'r amgylchedd a chymdeithas ehangach dros y tymor hwy.

170. Un o brif nodau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fydd dadansoddi'r rhestr fer o'r dulliau gweithredu ar gyfer y Bil. Bydd y dulliau gweithredu hyn yn cael eu cymharu â'r llinell sylfaen bresennol. Byddwn yn cymharu costau, manteision a risgiau tebygol y Bil yn erbyn y llinell sylfaen hon, sef costau, manteision a risgiau'n dull gweithredu presennol ym maes datblygu cynaliadwy.

171. Rhan allweddol o'r asesiad felly fydd pennu'r llinell sylfaen bresennol ar gyfer cymharu cynigion y Bil. Mae'r llinell sylfaen bresennol yn cynnwys y canlynol:

- y camau rydyn ni wedi'u cymryd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy, ac sydd wedi'u nodi yn ein Hadroddiadau Blynyddol;
- y camau y mae sefydliadau eraill yng Nghymru wedi'u cymryd i hybu datblygu cynaliadwy, o dan ddeddfwriaeth bresennol (fel y Mesur Llywodraeth Leol), drwy lofnodi'n Siarter Datblygu Cynaliadwy, neu drwy ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn gweithgareddau eraill.

172. Rydyn ni'n cynnig strwythuro'r asesiad mewn ffordd ffurfiol sy'n adlewyrchu'r cyfarwyddyd gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau³⁹, a chyfarwyddyd Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi⁴⁰. Mae'r penawdau canlynol yn rhoi arwydd o sut caiff yr asesiad ei strwythuro. Ni fyddwn yn mynd i fanylder ynghylch y penawdau hyn yma gan fod llawer o hyn i'w weld mewn rhannau eraill o'r ddogfen ymgynghori.

- byddwn yn ystyried y broblem dan sylw;
- byddwn yn ystyried y rhesymau dros ymyrryd;
- byddwn yn diffinio'r amcanion polisi;

³⁸ <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+http://www.bis.gov.uk/ia>
⁴⁰ http://www.hm-treasury.gov.uk/data_greenbook_index.htm

- byddwn yn diffinio'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ac yn eu cymharu â'r llinell sylfaen;
- byddwn yn nodi'r opsiwn gorau ac yn rhoi'r rhesymau dros hyn;
- byddwn yn cynnal dadansoddiad cost a budd os yw'n briodol. Bydd hyn dibynnu ar ein gallu i fesur y manteision. Os nad oes modd mesur yr effeithiau, caiff asesiad ansoddol trylwyr ei gynnal;
- byddwn yn rhestru unrhyw ragdybiaethau a ddefnyddiwyd a'n dadansoddiad o'r risgiau allweddol;
- hefyd byddwn yn ystyried effeithiau ehangach a phenodol. Bydd hyn yn cynnwys effeithiau ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, effeithiau amgylcheddol eraill, iechyd a lles, hawliau dynol (gan gynnwys hawliau plant) a chyfiawnder, cydraddoldebau, prawfesur gwledig, cwmnïau bach a chystadleuaeth, a'r Gymraeg.

173. Nod yr Asesiad Effaith yw mesur cynifer â phosibl o'r effeithiau, ond fel y nodir uchod caiff asesiad ansoddol trylwyr ei gynnal os na fydd hyn yn bosibl. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gofyn i sefydliadau ddarparu tystiolaeth a data i'n cefnogi lle bo'n briodol. Bydd hyn yn gyfle priodol i'r cyrff hynny ddylanwadu ar y Bil Datblygu Cynaliadwy drwy ddweud wrthym ni am gostau a manteision y dulliau gweithredu presennol.

174. Bydd cyfraniad y cyrff y bydd y Bil hwn yn effeithio arnyn nhw yn hanfodol ar gyfer llunio asesiad effaith trylwyr ar sail tystiolaeth a fydd yn pennu sut byddwn ni'n mynd ati yn y pen draw i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy ar draws sefydliadau penodol.

Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad

Hybu datblygu cynaliadwy (adran 3)

Cw.1 Beth yw'r rhwystrau mwyaf rydych yn eu hwynebu rhag gwneud mwy o benderfyniadau cydgysylltiedig tymor hir?

Cw.2 Beth sydd angen ei wneud a chan bwy i leihau neu chwalu'r rhwystrau hyn?

Tystiolaeth mewn perthynas â datblygu cynaliadwy (adran 4)

Cw.3 Pa dystiolaeth arall sy'n bod sy'n dangos bod yr agenda datblygu cynaliadwy ar gynydd a bod Datblygu Cynaliadwy'n cael ei fabwysiadu fel prif egwyddor drefniadol cyrff cyhoeddus?

Dyletswydd datblygu cynaliadwy newydd (adran 6)

I ba benderfyniadau y mae'r ddyletswydd yn berthnasol

Cw.4 Ydyn ni wedi nodi'r lefel fwyaf priodol o benderfyniadau sefydliadol ar gyfer cymhwyso'r ddyletswydd? Esboniwch.

Cw.5 A fyddai perygl yn hyn o gynnwys rhai penderfyniadau na ddylai fod yn berthnasol o dan y ddyletswydd? Beth fyddai'r rhain?

Cw.6 A oes penderfyniadau sydd heb eu cynnwys a ddylai fod yn berthnasol o dan y ddyletswydd? Beth fyddai'r rhain?

Cw.7 A ddylem ni gynnwys penderfyniadau sy'n rheoli gweithrediadau mewnol sefydliad? Os felly, pa weithrediadau mewnol y dylid eu cynnwys?

Cw.8 A ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol i gynigion cyllideb? Esboniwch.

Yr ymddygiadau

Cw.9 A yw'r holl ymddygiadau rydyn ni'n eu nodi yn hanfodol i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu syniadau datblygu cynaliadwy? Esboniwch.

Cw.10 A oes ymddygiadau hanfodol nad ydyn ni wedi'u nodi? Esboniwch.

Cw.11 Beth yw manteision ac anfanteision dynodi ymddygiadau fel y ffactorau datblygu cynaliadwy y mae'n rhaid iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uchel?

Cw.12 Faint o ddylanwad ddylai ymddygiadau datblygu cynaliadwy ei gael ar benderfyniadau lefel uchel – er enghraifft, a ddylai'r penderfyniadau hynny fod yn gyfreithlon os ydyn nhw'n cael eu gwneud mewn ffordd sydd:

- yn cyd-fynd ag un o'r ymddygiadau, rhai ohonyn nhw neu bob un;
- yn adlewyrchu'r ymddygiadau'n fras;

- yn anghyson â'r ymddygiadau
- a oes opsiynau eraill?

Yr amcanion

Cw.13 A oes amcanion datblygu cynaliadwy nad ydyn ni wedi'u nodi uchod?

Cw.14 Beth yw manteision ac anfanteision dynodi amcanion cynaliadwy fel y ffactorau y mae'n rhaid iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uwch?

Cw.15 Faint o ddylanwad ddylai'r amcanion ei gael ar benderfyniadau lefel uwch – er enghraifft, a ddylai'r penderfyniadau hynny fod yn gyfreithlon:

- dim ond os ydyn nhw'n cyfrannu'n weithredol at un neu fwy o'r amcanion hynny;
- os nad ydyn nhw'n amharu ar unrhyw un o'r amcanion;
- hyd yn oed os ydyn nhw'n amharu ar rai o'r amcanion hynny, cyn belled â'u bod yn hybu eraill yn weithredol
- a oes opsiynau eraill?

Cyfuno'r ddau

Cw.16 Beth yw manteision ac anfanteision seilio dyletswydd ar ymddygiadau datblygu cynaliadwy ac amcanion datblygu cynaliadwy?

Y cynnig datblygu cynaliadwy sengl

Cw.17 Beth yw'ch safbwyntiau ar seilio dyletswydd ar gynnig datblygu cynaliadwy sengl?

Yr amser y bydd ei angen ar sefydliadau i gydymffurfio â'r ddyletswydd

Cw.18 Faint o amser y dylid ei roi i sefydliadau wneud y newidiadau hyn?

Rhoi cyfarwyddyd

Cw.19 A fyddai'n ddefnyddiol cyhoeddi canllawiau ffurfiol i sefydliadau y mae'r ddyletswydd newydd yn berthnasol iddyn nhw?

Cw.20 A ddylai unrhyw gyfarwyddyd o'r fath gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru neu'r corff datblygu cynaliadwy newydd?

Diddymu dyletswyddau

Cw.21 A oes unrhyw ddyletswyddau statudol penodol y byddai'n briodol eu diddymu, yng ngoleuni'r dull gweithredu rydyn ni'n ei gynnig o dan y Bil Datblygu Cynaliadwy?

Cw.22 A oes rhwystrau cyfreithiol rhag darparu'n unol â'r ffactorau datblygu cynaliadwy rydyn ni wedi'u hamlinellu y gallai'r Bil Datblygu Cynaliadwy gael gwared arnyn nhw?

Adroddiadau

Cw.23 A ddylai fod yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno adroddiad ar gydymffurfio â'r ddyletswydd drwy'r trefniadau adroddiad blynyddol presennol?

Y sefydliadau y gallai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw

Cw.24 A oes sefydliadau ar y rhestr hon na ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw? Esboniwch.

Cw.25 A oes sefydliadau nad ydynt ar y rhestr hon y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw? Esboniwch.

Diffinio datblygu cynaliadwy

Cw.26 A oes manteision neu anfantaision eraill ynghlwm â diffinio "datblygu cynaliadwy", ac os felly beth ydyn nhw?

Cw.27 Pe byddem yn diffinio "datblygu cynaliadwy", ydych chi'n meddwl y byddai'r diffiniad gweithredol yn addas, a pham?

Corff datblygu cynaliadwy annibynnol (adran 7)

Pwrpas y corff newydd

Cw.28 Beth ddylai'r pwrpas cyffredinol fod ar gyfer corff newydd?

Sut dylai'r corff newydd weithredu

Cw.29 Oes gennych chi farn ar sut dylai prif swyddogaethau'r corff newydd weithredu?

Corff statudol

Cw.30 Ydych chi'n credu y dylai unrhyw gorff gael ei sefydlu'n statudol?

Swyddogaethau arfaethedig y corff newydd

Cw.31 Ydych chi'n cytuno â'r swyddogaethau arfaethedig i sefydlu corff newydd yn statudol?

Cw. 32 A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried?

Annibyniaeth ac atebolrwydd

Cw.33 Oes gennych chi farn benodol ar annibyniaeth y corff newydd?

Cw.34 Oes gennych chi farn benodol am y trefniadau atebolrwydd ar gyfer y corff newydd?

Sut i gymryd rhan a rhoi'ch barn

Dyddiadau'r ymgynghoriad a ble i anfon eich ymatebion

Rydyn ni am glywed eich barn am yr opsiynau ar gyfer deddfwriaeth datblygu cynaliadwy. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg rhwng 9 Mai 2012 ac 18 Gorffennaf 2012.

Sut i ymateb

Anfonwch eich sylwadau erbyn 18 Gorffennaf 2012 drwy un o'r ffyrdd canlynol:

E-bost

sdbill@wales.gsi.gov.uk

Post

Tîm y Bil Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

Gwybodaeth ychwanegol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn, ffoniwch: 029 2082 3388. Caiff yr wybodaeth y byddwch yn ei hanfon atom ni ei chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Fel arfer cyhoeddir enwau a chyfeiriadau (neu ran ohonynt) ynghyd â'r ymateb. Os nad ydych am gael eich adnabod fel awdur eich ymateb, nodwch hyn yn glir pan fyddwch yn ysgrifennu neu'n e-bostio.

Diogelu Data

Sut byddwn ni'n defnyddio'ch safbwyntiau a'ch gwybodaeth

Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â materion yr ymgynghoriad hwn yn gweld eich ymateb yn llawn. Hefyd efallai y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn ei weld i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn ni hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn briodol. Os nad ydych am i ni gyhoeddi'ch enw neu'ch cyfeiriad, dywedwch wrthym ni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn ni wedyn yn eu dileu.

Efallai y bydd enwau neu gyfeiriadau rydyn ni'n eu dileu yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn meddwl y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth sydd gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn

ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn i weld gwybodaeth rydyn ni wedi'i chadw yn ôl, bydd angen i ni benderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau ai peidio. Os yw rhywun wedi gofyn am beidio â chyhoeddi'i enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig i ni ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau efallai bod rhesymau pwysig dros ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er bod y person hwnnw wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddwn yn cysylltu â'r person i ofyn am ei farn cyn gwneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.